YR YMOFYNYDD.

RHIF. 74.] CHWEFROR, 1865. [AIL GYFRES.

PREGETH AR IOAN VIII, 43;

Yr hon a draddodwyd mewn Cyfarfod Cwarterol yn y Wig, Rhag. 29, 1864, *gan y diweddar Barch. O. Evans, Cefncoed-y-cymmer.*

IOAN 8. 43—"Paham nad ydych yn *deall* fy lleferydd i? am na ellwch *wrando* fy ymadrodd i."

CANAD pa mor anghysson bynag y mae'r geiriau hyn ag athrawiaethau poblogaidd y byd yn awr, y mae gwirionedd ynddynt ag sydd o'r pwys mwyaf yngolwg pob gwir Gristion. Ond gellir cael addefiadau lluosog o enau Trindodiaid i ddangos fod eu hathrawiaethau mwyaf anwyl hwynt yn anghysson a'r egwyddor a osodir i lawr yn y testun, ac y mae mor amlwg a'r dydd nas gallant fod yn perthyn i'w ddysgeidiaeth Ef, yr hwn a ddywedodd, "Paham nad ydych yn *deall* fy lleferydd i? am na ellwch *wrando* fy ymadrodd i."

Y mae'n ymddangos mor gysson â phob peth a wyddom ni am Dduw, y gwnai ef, wrth roddi datguddiad i ddyn, ei roddi mewn modd dealladwy iddo; ac y byddai pob peth angenrheidiol er iechydwriaeth yn unol â rheswm a hawdd ei ddeall. Yn wir, ni a gawn lawer o'n brodyr Trindodaidd yn cyttuno yn hollol a'r egwyddor hon, pan na fyddont yn trin eu syniadau neillduol. "Nid yw Duw, medd Archesgob Tillotson, yn cynnyg dim i grêd dyn ag sydd yn eglur groesi amgyffredion naturiol a hanfodol ei feddwl; oblegid dyma fyddai fod Duw yn dinystrio ei waith ei hun, ac yn gosod ar ddealltwriaeth dyn, yr hyn, tra yr erys yr hyn ydyw, nis gall fyth ei dderbyn." Yn wir, ymddengys i mi, nid yn unig fod yr archesgob yn iawn yn yr hyn a ddywed; ond y gellid dywedyd ymhellach, fod pob peth a gynnygid dan enw datguddiad dwyfol a fyddai yn cynnwys egwyddorion croes i reswm, rhodd werthfawroccaf Duw i ddyn, yn dwyllodrus, ac felly yn annerbyniol. Yr un Duw yw awdwr datguddiad a rheswm, ac y mae'n rhaid eu bod yn atteb i'w gilydd; a gallwn ychwanegu gyda Dean Swift, "Ei bod yn amlwg na ddarfu i Dduw erioed orchymyn i ni gredu, na'i weinidogion i bregethu, un athrawiaeth groes i'r rheswm a welodd ef fod yn dda i'n cynnysgaeddu ag ef." Nid i ddyrysu dyn, ond i'w gyfarwyddo a'i oleuo y cafodd datguddiad ei roddi: ac felly y mae dyben ei roddiad yn dangos yr angenrheidrwydd iddo fod yn addas i alluoedd dyn. Ymhellach y mae'n rhaid cael rheswm cyn y gallo datguddiad fod o les i ddyn. Onide paham y cafodd datguddiad ei roddi i ddyn mwy na'r anifail? Ai nid am ei fod yn greadur rhesymol, a chanddo allu, oberwydd hynny, i wneuthur defnydd o hono? A pheth yw'r gallu hwn ond rheswm? Nis gallaf ganfod un cymwysder arall mewn dyn i dderbyn datguddiad rhagor na'r anifail ond hyn. Y mae gan yr anifail lygaid i weled gwaith y greadigaeth; fe all

edrych ar, a gweled y datguddiad a roddodd Duw o'i feddwl trwy Moses a'r prophwydi, Crist a'i apostolion; ond herwydd nad oes ganddo feddwl i'w alluogi i ganfod doethineb a gallu Duw yn y blaenaf, nac i dderbyn ei dysteiolaeth yn yr olaf, ni pherthyn datguddiad iddo ef. Y mae gan yr anifail glustiau fel dyn; fe all glywed cystal ag yntau, a rhai o honynt yn well nag ef hefyd; ond heb ddeall nis gall wneyd dim o'r areithiau mwyaf hyawdl a doethlawn. Y mae yn eu clywed o'r goreu; ond nis gall, fel dyn, eu deall. Ond wedi'r cyfan, os yw datguddiad yn groes neu uwchlaw rheswm, nid wyf yn canfod y gwahaniaeth rhwng dyn ac anifail gymaint ag y meddylir ei fod. Y mae'r anifail yn methu derbyn datguddiad, am nad oes ganddo allu at y gwaith; y mae dyn mor analluog ag yntau, oherwydd fod datguddiad yn uwch na'i ddeall neu yn groes iddo. Y maent ar yr un tir yn gymwys. Felly gallwn ddywedyd gyda Dr. South, "Ei bod yn gabledd i feddwl y gall Duw groesi ei hun; ac felly gan mai llais Duw yw gwir reswm, yn gystal a datguddiad, nis gallant fyth fod yn groes i'w gilydd. Ac fel y dywedodd Robert Hall, "Dylid cofio nad yw goleuni datguddiad yn wrthwynebol i oleuni rheswm; y mae'r blaenaf yn cymmeryd yr olaf yn ganiattaol; tarddiadau o'r un ffynon yw'r ddau; ac y mae datguddiadau'r Bibl yn cael eu hanerch i'r deall—unig gyfrwng dysgeidiaeth, p'un ai dynol neu ddwyfol. Nid cwmwl yw crefydd ddatguddiedig i gaddugo, i dywyllu rheswm; goleuni o uwch ydyw, wedi ei amcanu i berffeithio'r ymarferiad o hono, a chyflawni ei ddiffygion. Gan fod y gwirionedd bob amser yn gysson ag ef ei hun, nis gall fyth ddioddef oddiwrth ymchwiliadau helaethaf y galluoedd dealltwriaethol, os bydd y pwerau hynny yn cael eu llywodraethu gan ymddarostyngiad ufydd i oraclau Duw." Gallwn yn hyderus uno hefyd â Dr. Adam Clarke, pan yn dywedyd yn berffaith gysson â'n syniadau ni fel Undodiaid, "Na all yr athrawiaeth honno fod yn wir yr hon nis gall sefyll prawf olrheiniad rhesymol. Yr ydym wedi myned yn rhy bell, ebe fe, wrth ddywedyd na ddylai yr athrawiaethau hyn neu eraill gael eu darostwng i olrheiniad rhesymol, gan mai athrawiaethau datguddiad pur ydynt. Nid wyf yn gwybod am un athrawiaeth o'r fath yn y Bibl. Athrawiaethau y llyfr hwn ydynt athrawiaethau rheswm tragwyddol, a chawsant eu datguddio oherwydd eu bod felly." Felly hefyd y mae Hartwell Horne yn dwyn ei dystiolaeth i'r egwyddor dan sylw yn y geiriau hyn—"Duw yw dechreuad gwirionedd naturiol, yn gystal a'r hwn sydd yn dyfod trwy ddatguddiad neillduol. Gan hynny ni all un gosodiad ag sydd yn wrthwynebol i egwyddorion sylfaenol rheswm fod yn ystyr un rhan o air Duw; ac nis gall yr hyn sy'n ffugiol ac yn groes i reswm byth fod yn wir a chysson â'r datguddiadau cynwysedig yn yr Ysgrifeniadau Sanctaidd, mwy nag y gall Duw (awdwr y naill yn gystal a'r llall) groesi ei hun."

Wele ni bellach ar dir têg, tir ein gwrthwynebwyr eu hunain; sef, y dylai ein golygiadau crefyddol fod yn gysson â rheswm. Yr ydym bellach mewn cyflwr lled dda i droi at yr Iesu, a chlywed y prophwyd mawr hwn yn cadarnhau yr un egwyddor. "Paham na ddeallwch fy lleferydd i?" Nid am eu bod yn groes i reswm, nage. Nid am eu bod yn uwch na rheswm, nage. Nid am eu bod yn cynwys dirgeledigaethau a berthynant i Dduw yn unig, nage: ond am na ellwch *wrando* fy ymadrodd i. Dyma pam. Gwrandewch ae nid oes modd i chwi beidio fy neall i. Yr wyf yn dwyn gwirioneddau mawrion o fewn cylch eich cyrhaeddiadau chwi. Gwrandewch ac yna chwi ddeallwch. "Goleuni y byd ydwyf fi."

I. Yr wyf yn sylwi fod holl athrawiaethau yr Iesu mor amlwg fel nad oes eisiau ond gwrando arno er mwyn ei ddeall.

Y mae iaith Crist yn hynod o syml, eglur, a dealladwy, er cynifer o oesoedd sydd wedi myned heibio ; er cymaint y cyfnewidiad sydd wedi cymeryd lle mewn dull o lefaru, defodau, arferion, fel braidd y gellir dywedyd fod un oes yr un peth a'r llall, yr hyn sydd yn ei gwneuthur yn anhawdd iawn i ddeall yr hyn a esgrifenwyd er ys ychydig oesoedd yn ôl, fel y mae'n fatter o syndod fod geiriau Crist mor ddealladwy yn yr oes hon. Pan fyddwyf yn darllen llythyrau Paul, yr wyf yn teimlo diffyg neillduol yn tarddu oddiar fy anwybodaeth o'r amgylchiadau a enwyd : anhawsderau a bâr felly, yn ddigon tebyg, am oesoedd etto i ddyfod. Ond yr wyf, pan yn troi at Grist, yn teimlo fy mod yn rhodio tir newydd. Pan y mae ef yn gosod o'm blaen egwyddorion mawrion ei grefydd oleu, yr wyf yn teimlo fod un yngafael â'r gwaith ag sydd yn eithaf meistr arno.

Pan y mae ef yn llefaru am undod, tadoldeb, a gofynion Duw y mae'n gwneyd hynny mewn geiriau di-ddau-feddwl. Nid eisiau ond gwrando arnynt cyn eu deall. A allasai'r wraig o Samaria ei gamddeall ef mewn perthynas i wrthrych addoliad pan y darfu iddo osod allan mai nôd y gwir addolwyr yw addoli'r Tad mewn yspryd a gwirionedd ? Gofynodd hi iddo pa *fan* yr oedd yn rhaid addoli ; y mae'r Iesu yn dywedyd *pwy* y ddylid addoli, a pha *fodd*, ac yna na waeth pa fàn. Beth arall sydd yn eisiau er deall lleferydd ein Harglwydd wrth y wraig hon ond gwrando arno ! Darllenwch yr ymddiddan rhwng Crist a'r wraig hon ; ac wedi diweddu, dywedwch wrthyf, a oes ynoch un amheuaeth mewn perthynas i wrthrych addoliad. " Dyfod y mae'r awr, ac yn awr y mae hi, pan addolo y gwir addolwyr y Tad, mewn yspryd a gwirionedd." A oes yma ryw un ; a oes yma ryw blentyn yn teimlo rhyw anhawsdra yn y geiriau hyn ? Pwy yw gwrthrych addoliad ? P'un ai Tad, neu Dad, Mab ac Yspryd ? Os cewch lonydd gan ragfarn, gwrandewch ar y geiriau hyn : nid oes eisiau rhagor ; yr ydych yn rhwym o'u deall ond eu gwrando. Wrth ddarllen credo St. Athanasius, neu'r gredo sydd ar ei enw ef o leiaf, yr wyf yn canfod yn eglur ei fod ef yn dysgu fod y Tad yn Dduw, y Mab yn Dduw, a'r Yspryd Glân yn Dduw ; ond wrth ddarllen credo Crist, credo y gwir addolwyr, yr wyf yn canfod mor eglur a hynny nad oes ond y Tad yn unig i'w addoli.

Y mae Crist etto yr un mor eglur ar y pwngc hwn yn y ffurf o weddi a roddodd i'w ddisgyblion. A oes rhyw un erioed wedi darllen gweddi'r Arglwydd, fel ei gelwir, a chael ei adael ganddi mewn amheuaeth ynghylch gwrthrych addoliad y Cristion ? A oes rhyw anhawsdra yn y geiriau ; rhyw ddirgelwch yn yr ymadroddion ; rhyw dywyllwch ynddynt ?—A gaf i atteb drosoch ? Nac oes dim, yn y mesur lleiaf ; y mae'r cyfan yn eglur. Nid oes eisiau esboniwr ; yr esboniad goreu yw ei gadael i esbonio ei hun.

Yn ei atteb i'r cyfreithiwr mewn perthynas i undod Duw ; yn ei weddi wrth gyfodi Lazarus ; yn ei holl weddiau trwy ei oes ; yn ei daer ymgais a'i Dad ar i gwppan chwerw angeu fyned heibio ; ac yn ei waith ar y groes yn rhllwys teimladau y galon dyneraf, fwyaf teimladwy a gurodd erioed ym mronwes dyn, gan ymbil am faddeuant i'w elynion, y mae'r cyfan yn oleu, wel y gallasai Crist ddywedyd yn briodol, " Goleuni y byd ydwyf fi." Ni ddawodd ef ddim o wrthrych addoliad y Cristion yn y tywyllwch. Naddo ; haul y cyfiawnder oedd ef, ac nis gallasai beidio goleuo, mwy nag y gall y sos aros ynghwmni'r haul naturiol. Ond nid fy niben yw difynu llawer o

eiriau Crist, gan fod ein gwrthwynebwyr eu hunain yn addef ei fod ef yn llefaru yn eglur, fel y gwelir cyn terfynu, canad pa fodd y cydsaif hyn a'u haddefiadau am ddirgeledigaethau a thywyllwch eu tybiau neillduol.

Ymhellach er mwyn gweled y ffordd sydd yn arwain i'r bywyd trag'wyddol, a oes eisiau rhagor na gwrando ar Iesu. Y mae ein dyledswydd i garu Duw a dyn yn cael ei chyhoeddi â llais taran ganddo, yn ei atteb i'r un a ddaeth atto i ofyn beth a wnai er etifeddu'r bywyd trag'wyddol. "Pa fodd y darllenir yn y gyfraith," medd Iesu? Yntau gan atteb, a ddywedodd, mai caru Duw a'n holl galon, a'n cymydog fel ni ein hunain oedd llais awdurdodol hon. Beth yw atteb yr Iesu? A ydyw yn dyrysu'r dyn a dichellion darddansoddiaeth? A ydyw yn ameu gallu dyn i gadw eirchion Duw? Nac ydyw; ond ei atteb yw, "Gwna hyn a byw fyddi." A oes rhyw beth ganddo yn cael ei osod yn lle'r gwneyd yma? Dim, dim. A wna rhyw ffydd ddirgeledd y tro? Na wnaiff. Nid oes dim ond y ffydd hono sydd yn arwain at y cariad daublyg yma a wna'r tro. Y mae'n rhaid gwneyd hyn; rhaid caru Duw a dyn cyn cael bywyd. A oes yma ryw un yn rhy fyr ei ddeall i ganfod hyn? Na, nid oes eisiau ond gwrando ar Iesu cyn deall ei leferydd ef.

Felly hefyd y cawn yr Iesu yn oleu ar wahanol byngciau dyledswydd y Cristion. A oes yma ryw un yn barod i ameu nad yw cyfiawnder o werth ar dir Cristnogrwydd? Gwrandawed ar Iesu yn gofyn cyfiawnder helaethach na chyfiawnder yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid cyn bod yn addas i deyrnas nefoedd; a dyweded, os gall fod amheuaeth ganddo wed'yn. A oes rhyw un wedi darllen pregeth Crist ar y mynydd, a chyfodi oddiwrthi, heb gael ei argyhoeddi yn drwyadl, fod gwynfyd, dedwyddwch, yn anwahanol gyssylltiedig ag addfwynder, trugaredd, purdeb, tangnefedd? Beth yw'r achos ynte na fyddai dynion yn deall hyn? Nid yng Nghrist y mae'r golled. Nage; ond ynddynt hwy. Methu gwrando ar ei eiriau y maent. Y mae'n eglur i mi nad oes eisiau rhagor cyn darllen ein dyledswydd yngeiriau Crist. Y mae rhagfarn a chredoau dynol wedi cau drws y gwrando, a pha fodd y gellir deall Crist wed'yn. Ymaith ynte a rhain, ac yna ni a welwn yn eglur mai "Goleuni y byd yw'r Iesu."

Drachefn, beth all fod yn fwy goleu na dysgeidiaeth Crist ar ostyngeiddrwydd, cariad at ein gelynion, tosturi, a maddeugarwch? A ydych wedi darllen ymddiddan Crist â mam meibion Zebedeus ynghylch uwchafiaeth ei meibion heb deimlo pob dadl yn eich monwes yn cael ei distewi. Er mwyn bod yn wir fawr y mae'n rhaid bod yn was i bawb, medd Crist. Er mwyn bod yn uchel mae'n rhaid bod yn weinidog. A pheth all fod yn fwy rhesymol na hyn? Pwy yw'r mwyaf ond yr helaethaf ei ddaioni; dwyn lles pawb oddiamgylch? Dyma'r *gwas*, ond dyma'r gwir fawr hefyd.—Gwrandewch ar Iesu etto yn ceryddu balchder y phariseaid, y rhai oeddent yn gwneuthur pob peth er mwyn cael eu gweled gan ddynion; rhoddi elusen, gweddio, ymprydio, pob peth er mwyn hunan-glod. Yr oeddent yn eistedd yn y lleoedd uwchaf yn y synagogau a'r marchnad-leoedd. Beth am y rhai'n Iesu? "Yn wir meddaf i chwi, y maent yn derbyn eu gwobr." O flaen ei ddisgyblion y mae'n gosod ffordd arall, ffordd well. "Cau'r drws cyn gweddio; enneinio a golchi'r pen cyn ymprydio." Nid oes dim balchder, dim ucheldrem, dim hunanoldeb yn cael ei ganiattau i'r Cristion. Na, os mynwn fod yn wir ddisgyblion i'r Iesu, y mae'n rhaid i ni ymwadu â ni ein hunain, cyfodi'r *groes*; ac yna, nid cyn hynny, canlyn Crist. Y mae

gostyngeiddrwydd i'w glywed yngeiriau Crist, ac i'w ganfod yn disglaerio yn ei holl weithredoedd ef.

Wrth ddarllen dameg y talentau; y tŷ a adeiladwyd ar y graig; yr had da; y morwynion call a ffôl, a ydyw'r ddyledswydd o ddefnyddio ein talentau a'n cyfleusderau ddim yn amlwg; bod yn wneuthurwyr y gair ac nid gwrandawyr yn unig; derbyn yr had da, y gair, i dir da'r galon, hynny yw, ei ddeall fel y mae Crist ei hun yn ei esponio: gofalu cynhyddu o hyd mewn egwyddorion da, fel y morwynion call; ac nid meddwl fod genym ddigon o grefydd fel y morwynion ffol, ac ymorphwys ar hynny a chael ein siomi yn y diwedd, pan yn gweled ein lampau yn diffoddi, a ninau mewn angen o'u goleu yn fwy nag erioed. Attolwg, pwy sydd yn cael ei feio ond y segurwr a guddiodd ei dalent mewn napcyn yn y ddaear? A ydyw yr hwn a enillodd bum talent at y pump a gafodd; yr hwn a enillodd ddwy at y ddwy a derbyniodd, yn cael ei feio a'i wrthod? Nac ydyw. Pwy ond yr hwn sydd yn gwrando geiriau'r Iesu ac yn eu gwneuthur sydd wedi sylfaenu ei dŷ ar y graig heb achos ofni llifeiriant y llif-ddyfroedd. A oes yma ryw un, meddaf unwaith etto, mor isel ei gyrhaeddiadau na wêl yn union mai *ty'r gweithredoedd da* yw'r tŷ ar y graig, ac mai'r tŷ ar tywod yw'r un sydd yn ymddifad o honynt. "Yr hwn sydd yn gwrando fy ngeiriau hyn ac heb eu gwneuthur." Dyna'r gwr ffol, tŷ yr hwn a syrthiodd, a'i gwymp a fu fawr.

Nid yn unig y mae gweithredoedd yn angenrheidiol, ond y mae'r Iesu yn eu gosod allan fel sail ein cymeradwyaeth yn y farn. "Nid pob un, ebe fe, a'r sydd yn dywedyd wrthyf, Arglwydd, Arglwydd, a ddaw i mewn i deyrnas nefoedd; ond yr hwn sydd yn gwneuthur ewyllys fy Nhad, yr hwn sydd yn y nefoedd. Llawer a ddywedant wrthyf yn y dydd hwnw, Arglwydd, Arglwydd, Oni phrophwydasom yn dy enw di? Ac oni fwriasom allan gythreuliaid yn dy enw di? Ac oni wnaethom wyrthiau lawer yn dy enw di? Ac yna yr attebaf iddynt, nis adnabûm chwi erioed: ewch oddiwrthyf chwi weithredwyr anwiredd." A oes eisiau egluro geiriau o'r fath hyn?—Etto, os oes rhyw un wedi dychymygu y caiff ei gymeradwyo, y maddeuir ei bechodau ar un sylfaen arall, ond trwy fod yn faddeugar ei hun i ereill. Os y meddylia y gwna'r tro fod arall yn meddu'r anian hon yn ei le, a'i bod yn ddigon iddo ef gredu hynny, ac felly feddwl ei fod yn ddiogel, caiff ei siomi pan glywo eiriau Crist: ac Oh! na chai ei argyhoeddi yn awr cyn yr elo yn rhy ddiweddar. "Maddeu i ni ein dyledion FEL y maddeuwn ni i'n dyledwyr," yw'r weddi y mae Crist yn osod yngenau, ïe, ac ynghalon y Cristion. Ac y mae'n ychwanegu gan ddywedyd, "Oblegid os maddeuwch i ddynion eu camweddau, eich Tad nefol a faddeu hefyd i chwithau; eithr oni faddeuwch i ddynion eu camweddau, ni faddeu eich Tad eich camweddau chwithau." Yn nameg y brenhin oedd yn gofyn cyfrif gan ei weision, maddeugarwch yw prif sail derbyniad y pechadur. Y mae'r brenhin yn cael un o'i weision yn ei ddyled o ddeng mil o dalentau, ac heb ddim i dalu; ac mae'r brenhin yn maddeu iddo y ddyled. Ond y gwas, wedi cael un o'i gydweision yn ei ddyled ef o gant ceiniog, yn lle maddeu iddo yn ôl esiampl i Arglwydd, sydd yn ymaflyd ynddo ac yn ei lindagu, ac wedi hynny yn ei fwrw yngharchar; ac am hynny y mae'r gwas creulon ac anfaddeugar hwn yn cael ei roddi i'r poenwyr hyd oni thalo yr hyn oll oedd ddyledus i'r brenhin. A oes rhyw anhawsdra yma etto i ddeall yr Iesu? Dim ond gwrando sydd eisiau. Y mae'r egwyddor hon o faddeugarwch yn cael ei phario mor bell ar dir Crist'nogrwydd, fel os trosedda ein brawd i'n herbyn,

a throi attom yn edifeiriol, y mae'n rhaid maddeu saithwaith, a thri-ugain saithwaith yn y dydd.—Ymhellach etto, os oes amheuaeth ar feddwl rhyw un mewn perthynas i'w dderbyniad ar ei ddychweliad a'i edifeirwch, gwrandawed ar ddameg y Mab Afradlon, ac nid oes un rhwystr ar ei ffordd i weled nad oes dim yn cael ei ofyn i'r afradlon ond edifeirwch ; dim yn cael ei ddanod iddo : ond drws tŷ llawn ei Dad yn cael ei daflu'n agored led pen, a phob groesaw i'r pechadur ar ol gadael ei bechod. Os gofynwch ble'r aeth y pechodau a gyflawnodd, a pheth ddaw o'r rha'in ? Yr un peth a ddaeth o'i newyn wedi iddo borthi ei hun ar y llo pasgedig. Yr un peth a ddaeth o'i noethni wedi iddo gael y wisg oreu am dano. Nid newynog wedi ymborthi ; nid noeth wedi ymwisgo ; nid pechadur 'chwaeth wedi iddo adael ei bechod. *Bu* yn newynog, ond nid felly 'nawr ; *bu* farw, ond aeth drachefn yn fyw ; *bu* golledig, ond efe a gafwyd. Peidiwch a danod ei newyn, ei afradlondeb, ei farwolaeth, na'i golledigaeth iddo mwy : mae'r bachgen wedi newid, a'i dad wedi ei dderbyn yn y modd mwyaf groesawus. Etto yn hanes dydd y farn a roddir gan Iesu, y mae mor amlwg a'r dydd pwy sydd i gael eu derbyn, a phwy eu gwrthod. A ydych, gyfeillion anwyl, wedi dilladu'r noeth ; porthi'r newynog ; disychedu'r sychedig ; dwyn y dieithr gyda chwi a'i ymgeleddu ; wedi ymweled â'r carcharor yn ei garchar ? Os ydych, y mae eich tynged yn ddiogel, y mae'r barnwr ei hun wedi dywedyd hynny. Y mae pob gweithred o'r fath yn cael ei chyfrif gan Iesu fel wedi ei gwneuthur iddo ef ei hun. Ac os, o'r tu arall, nad ydym yn ymddwyn felly, y mae yr un mor sicr mai ein gwrthod a gawn canad beth fo'n proffes yn yr hên fyd yma. Nis gallwn ymesgusodi ar y tir nad yw'r Iesu wedi bod yn ddigon eglur ar y matter. Da gan hynny y dywedodd yr Iesu yngeiriau ein testun, " Paham nad ydych yn deall fy lleferydd i ? am na ellwch wrando fy ymadrodd i."

Yr wyf yn canfod yn amlwg nad anhawdd deall Iesu Grist ar byngciau sylfaenol crefydd ; ac yn hyn y mae ein gwrthwynebwyr yn cyttuno â ni. Ychydig ddifyniadau o'u hysgrifeniadau fyddant ddigon i ddangos hyn. Wedi gwneuthur hyn, ymdrechaf ddangos trwy ddifyniadau ereill nad yw Trindod yn beth a ellir ei deall o gwbl yn ol eu tystiolaeth hwy eu hunain, ac felly nis gall wneuthur un rhan o'r athrawiaeth Grist'nogol, yr hon a addefant sydd eglur a hawdd ei deall. Ond cânt lefaru drostynt eu hunain.

Dr. Barrow a ddywed fel hyn, " Nid oedd ef (Crist) yn ymbleseru i siarad am ddirgeledigaethau goruchel (er fod ei ddoethineb treiddgar yn eu hamgyffred hwynt oll), nac am byngciau a chwestiynau dyrus, y rhai allent ddifyru a dyrysu yn hytrach nag addysgu ac adeiladu ei wrandawyr, ond yn gyffredin yr oedd yn eu porthi â'r gwirioneddau mwyaf cyffredin a defnyddiol, a hynny yn yr iaith fwyaf cyffredin a dealladwy."—*Apud Wilsou.*

Dr. Johnson, yn y *Rambler, No.* 81, tud. 133, a ddywed, " Am sylfaenydd dwyfol ein hathrawiaeth y mae'n amhossibl darllen yr hanesion efangylaidd heb sylwi pa mor lleied yr oedd ef yn ffafrio gwagedd ymofyngarwch *(the vanity of inquisitiveness)* ; pa gymaint yn fwy anfynych yr ymddarostyngai i foddloni manylrwydd *(curiosity),* nac i esmwythau cyfyngder ; a pha gymaint y dymunai i'w ganlynwyr ragori mewn daioni yn hytrach na gwybodaeth. Y mae tueddiad uniongyrchol yn ei orchymynion i ddiwygio'r egwyddorion moesol a rheoli yr ymddygiad beunyddiol, heb ddim chwant dangos ei hun, heb ddim dichell, ar unwaith yn *annadleuadwy ac eglur,* yr hyn a all dynion syml, o fwriadau da, *yn hawdd amgyffred,* fel na allwn *lai na chanfod ei feddwl* ond pan fyddo arnom ofn ei gael allan."

Y mae Dr. Parr yn dwyn ei dystiolaeth yn y geiriau hyn, " Crefydd yw Cristnogrwydd sydd wedi ei bwriadu i fod o ddefnydd cyffredin : y mae hi yn appelio at

deimladau cyffredin ein natur ni, ac *nid yw fyth yn anghyttuno* â llais diduedd ein rheswm. Gan hynny gallwn gyfrif ymhlith tueddiadau llesiol, yn gystal a thystiolaethau neillduol y cyfryw grefydd, fod ei hawdwr wedi ymguddio oddiwrth bob dadleuon dyrus."—*Apud Wilson.*

"Y mae rhywbeth mor rhyfedd gyffrous ac addysgiadol, medd Abbot, yn null ein Hiachawdwr yn cymwyso ei addysgiadau at yr achlysuron ar y rhai yr oeddent i gael eu gwneuthur, ac at y dibenion oeddent ganddo mewn golwg. Gwnai pregethwr yr oes hon gario darddansoddau *(metaphysics)* difynyddiaeth dros holl bentrefi Galilea, ac a ddyrysai y wraig o Samaria, neu'r llywodraethwr ymofyngar, â chwestiynau ynghylch natur y Duwdod, neu y gwahaniaeth rhwng anallu naturiol a moesol. Ond yr oedd Iesu Grist yn gwasgu eu dyledswydd yn unig ar ddynion. Dwy egwyddor fawr hanfodol crefydd yw y rhain—y ddyledswydd o gariad cryf tuag at bob dyn, ac ufudd-dod a diolchgarwch tuag at y Goruchaf. Y mae Iesu Grist yn tystio mai dyma'r sylfaen ar yr hon y mae crefydd ddatguddiedig yn gorphwys."

"Nid wyf yn gwybod, medd Sherlock, pa fodd y mae'n dygwydd fod dynion yn gwneuthur pethau eglur yn dywyll, ac nad ydynt yn hoffi dim mewn crefydd ond dychymygion *(riddles)* a dirgeledigaethau. Darfu i Dduw, yn wir, weled yn dda i sefydlu llawer o ddefodau (a llawer o honynt o arwyddoccâd tywyll) yn yr addoliad Iuddewig i frawychu eu meddyliau plentynaidd i fwy o barch i'w Fawrhydi dwyfol. Ond yn y dyddiau diweddaf hyn anfonodd Duw ei fab i'r byd i wneuthur datguddiad eglur, esmwyth, a pherffaith o'i ewyllys; i gyhoeddi y fath grefydd a allasai gymeradwyo ei hun i'n rheswm, a denu ein serchiadau â'i swyn a'i harddwch naturiol. Ac ni ellir gwneuthur mwy o gam â'r grefydd Gristnogol na'i gwneuthur yn dywyll ac annealladwy; ac etto y mae gormod o ddynion i'w cael ag sydd yn dibrisio pob peth y maent yn ddeall, ac nid ydynt yn ystyried dim yn ddigon o dreial i'w ffydd ond yr hyn sydd yn croesi synwyr a rheswm dynolryw."

I'r un pwrpas hefyd y mae Dr. Beattie yn dywedyd, "Y mae'r grefydd Gristnogol, yn ol fy marn i, yn beth syml iawn, yn ddealladwy i'r gwanaf ei gynheddfau, ac ar hyn, pe y gwnaem gymeryd y drafferth o uno ymarferiad a gwybodaeth, gallem ddyfod yn gyfarwydd heb droi llawer o lyfrau. Ardderchawgrwydd neillduol y grefydd hon yw, ei bod yn hollol boblogaidd ac addas, yn ei hathrawiaethau a'i phrofion, i holl sefyllfaoedd a chyrhaeddiadau creaduriaid rhesymol,—caracter nad yw yn perthyn i un *system* grefyddol neu philosophaidd arall a ymddangosodd erioed yn y byd. Yr wyf yn rhyfeddu gweled cynifer o ddynion enwog o ran eu duwioldeb a'u cyrhaeddiadau yn ymdrafferthu i wneuthur dirgelwch o'r sefydliad dwyfol hwn. Os gwel Duw fod yn dda i ddatguddio ei hun i ddynolryw, a allwn ni feddwl y gwnai hynny yn y fath fodd fel na allai neb ond y dysgedig a'r myfyrgar ei ddeall ef? Nis gall y cyffredinolrwydd o ddynolryw mewn un amgylchedd possibl, bvth gael hamdden na chyrhaeddiadau at ddysgeidiaeth neu fyfyrdod dwfn. Gan hynny, os gwnawn Gristnogrwydd yn ddirgelwch, yr ydym yn cau allan y rhan fwyaf o ddynolryw rhag ei hadnabod; yr hyn sydd yn hollol groes i amcan ei Hawdwr, fel y mae'n eglur oddiwrth ei ddatganiadau pendant a mynych. Mewn gair, yr wyf yn hollol argyhoeddedig mai adnabyddiaeth drwyadl o'r ysgrythyr, yn enwedig yr efangylau, sw'r cyfan sydd yn angenrheidiol i'n perffeithio mewn gwybodaeth Grist'nogol."—*Apud Wilson.*

Dr. Campbell hefyd a ddywed, "Nid yw pob gwirionedd a gynwysir yn y datguddiad dwyfol neu a ellir ei gasglu oddiwrtho, yn cael ei drosglwyddo gyda'r un eglurder, ac nid yw ynddo ei hun o gymaint pwys. Y mae rhai pethau yn cael eu hosod i lawr mor fynych, mor eglur yn yr Ysgrythyr, fel na wnai braidd neb ag sydd n credu mewn datguddiad dwyfol, eu hamau. Ynghylch y rhai'n nid oes un ddadl n yr eglwys. Y fath yw'r athrawiaethau am undod, ysprydolrwydd, priodoliaethau atturiol a moesol Duw; creadigaeth, cynhaliaeth, a llywodraeth y byd ganddo; y igwyddiadau mwyaf hynod ym mywyd Iesu Grist; ynghyd a'i groesboeliad, ei adyfodiad a'i esgyniad; yr athrawiaeth am y farn i ddyfod, nefoedd ac uffern, ynghyd r holl wirioneddau moesol sy'n gosod allan gynllinellau ein dyledswyddau tuag at duw, tuag at ein cymydog, a thuag attom ein hunain. Yn gyffredin cair fod yr n sydd fwyaf ei bwys i ni ei wybod a'i gredu yn cael ei addysgu yn fwy aml ac

eglur. * * * Y mae'r character y mae yr Ysgrythyr ddwyfol yn roddi o'i hathrawiaeth yn hollol groes i dywyllwch darddansoddol, y mae'n bur ac eglur, y fath ag sydd yn goleuo'r llygaid ac yn gwneuthur y gwirion yn ddoeth. Y gwirioneddau mwyaf eu pwys ydynt y rhai mwyaf eglur."

Felly yr ydym o'r diwedd wedi dyfod i sefyll ar dir lled gadarn, onid ydym? Y mae Crist yn dywedyd nad oes eisiau ond gwrando arno ef cyn ei ddeall; y mae'r Trindodiaid dysgedig uchod yn cyttuno â hyn, gan ddywedyd fod Cristnogrwydd yn eglur a hawdd ei ddeall. A ydyw'r casgliad yn annheg, sef mai nid Cristnogrwydd yw dim ag sydd yn ddyrus, anhawdd ei ddeall, a chroes i reswm?

Gallasai Crist ddywedyd, "Paham nad ydych yn deall fy lleferydd i?" ac atteb, "am na ellwch *wrando* fy ymadrodd i." A all rhyw Drindodwr mewn bodolaeth ddywedyd hyn am Drindod, ymgnawdoliad Duw, pechod gwreiddiol, iawn haeddianol, &c.? A all rhyw Drindodwr ddywedyd, "Gwrandewch ar fy ngolygiadau i ar y Drindod, a chwi a'u deallwch? Wel, gadewch i ni wrando ac ymdrechu a deall âm ychydig. Y mae cymaint o wahaniaeth barn, cynifer o wahanol feddyliau yn ei chylch fel na oddefai amser i mi osod ger eich bron ond ychydig iawn o honynt.

St. Athanasius, neu ryw un ar ei enw, a ddywed, "Digrëedig Dad, digrëedig Fab, digrëedig Yspryd Glân. Trag'wyddol Dad, trag'wyddol Fab, trag'wyddol Yspryd Glân. Ac etto nid ydynt dri thrag'wyddolion, ond un tragywyddol. Ac fel nad ydynt dri anfesuredigion, na thri digrëedigion, ond un digrëedig ac anfesuredig. Felly y Tad sydd Dduw, y Mab sydd Dduw, a'r Yspryd Glân sydd Dduw; ac etto nid ydynt dri Duwiau: ond un Duw." A ydych chwi yn gwrando yn awr gyfeillion? Ni ofynaf a ydych yn deall: oblegid pa fodd y gall neb ddeall dim oddiwrth y fath gredo, ond fod ynddi groesddywediadau o'r gwrthunaf.

Ni a allwn wrando etto ar wahanol Drindodiaid yn ymdrechu esbonio eu meddyliau ar bersonau'r Drindod; ond er gwrando, er myfyrio, er meddwl drachefn a thrachefn, mae'n rhaid i mi ddywedyd nas gallaf eu deall. Treiwch chwi os gallwch. Y mae Dr. Waterland yn dywedyd mai yr un peth yw person a bod deallus. Person yw'r hwn sydd yn bodoli yn briodol, medd Bennet. Perthynasau allanol ydynt, medd Wallis. Tri gwahaniaeth ydynt, medd Tillotson. Tri amrywiaeth, medd Burnet. Tair bodoliaeth, medd Secker. Tri rhyw beth, medd Wallis. Ac i goroni'r cyfan, dywedodd un dyn dysgedig iawn, Esgob Burgess, fod y Tad er trag'wyddoldeb wedi cenhedlu'r Mab trwy fyfyrio ar ei berffeithderau ei hun *(by contemplating his own perfections)*. Ond pa'm na ddarfu iddo genhedlu rhagor nag un Mab, ag yntau wrth y gwaith er trag'wyddoldeb, yr wyf, gyda Belsham, yn methu deall!! Ond y mae'r pennaf, y goreu o lawer etto 'nol. Gwnaeth un gwr dysgedig y sylw hwn: y Tad yn Dduw a rhyw beth yn *rhagor*; y Mab yn Dduw a rhyw beth yn *rhagor*; yr Yspryd Glân yn Dduw a rhyw beth yn *rhagor*; tra nad yw'r tri gyda'u gilydd ond un Duw a DIM *yn rhagor*. Gellwch wrando ar ffiloreg o'r fath hyn o'r goreu; ond yr wyf yn meddwl, er galw ynghyd eich holl bwerau i ymdrechu eu deall, mai ofer fydd y gwaith er dim a wneloch. O'r hyn leiaf y mae'n rhaid i mi ddywedyd fod pob esboniad o'r Drindod a welais i erioed ymhell uwchlaw neu islaw fy neall i: ac nid wyf yn unig yn hyn; eithr y mae llawer o Drindodiaid dysgedig yn cyduno â mi i'r llythyren, fel y tystia'r dyfyniadau a ganlyn.

Wel, beth am ddeall y Drindod! Dr. Thomas Manton a ddywed, "Hwn yw'r dirgelwch mawr, Tri ac Un, ac Un a Thri. Dynion ac angylion a wnaethpwyd i'r olygfa hon: nis gallwn ei amgyffred, am hyny y mae'n rhaid i ni ei ryfeddu. O LUMINOSISSIMÆ TENEBRÆ, *dywyllwch disglaeriaf.* Y maent yn fwy o dri oblegid mai un ydynt; ac yn fwy o un oblegid eu bod yn dri. Pe na bai dim arall i'n tynnu i ddymuno ymadael ond hyn, byddai hyn yn ddigon."

"Oherwydd, medd Dr. South, fod un yn gallu bod yn Dad ac yn Fab i'r un person (Dafydd), achosi ei hunan, bod yn achos ac effaith hefyd, ac felly'r copi yn rhoddi bodoliaeth i'r *original*, sydd yn ymddangos ar yr olwg gyntaf mor ddieithr ac anghyfrifadwy, fel y cai ei wrthod fel croesddywediad, pe na byddai i'w addoli fel dirgelwch."

"Bum erioed yn edrych, medd Esgob Beveridge, ac felly y gwnaf, ar yr amgyffredion hynny am Dduw fel y rhai mwyaf gwir, trwy y rhai yr ydym yn ei amgyffred ef fel y mwyaf anamgyffredadwy, ac mai yr hyn sydd yn ymddangos yn fwyaf ambossibl i ni, sydd fwyaf gwir am Dduw. Ar y tir hwn gan hynny yr wyf yn teimlo fy hun yn rhwym o gredu dirgeledigaethau'r efengyl, pa leiaf galluog y fyddwyf i'w hamgyffred; yn enwedig dirgelwch y dirgeledigaethau, y Drindod yn Undod, a'r Undod yn Drindod, yr hyn yr wyf mor bell o amgyffred, nac yn wir ei ddychymyg, fel na allaf ddwyn fy nun i feddwl am dano'n sobr, neu ysgriwio i fynu fy meddwl *(to screw up my thoughts)* ychydig mewn perthynas iddo, nad wyf yn union yn colli fy nun megis mewn llewyg neu lesmair: Fod Duw'r Tad yn un perffaith Dduw a hono ei hun; Duw'r Mab yn un perffaith Dduw o hono ei hun; a Duw'r Ysbryd Glân yn un perffaith Dduw o hono ei hun; fod un yn berffaith dri, a thri yn berffaith un; fod y Tad, y Mab, a'r Yspryd Glân yn dri, ac etto im ond un; un ac etto'n dri! O ddirgelwch calon-frawychus, meddwl-ddifaus, anamgyffredadwy! Pwy all beidio credu ei fod yn wir am y Duwod gogoneddus?"

Rhoddaf un difyniad etto o waith Dr. Hey, ac yna gorphenaf. Dywed ef fel hyn, "Pan y cynygir i mi brofi fod yn Undod y Duwdod dri o bersonau, o'r un sylwedd, gallu a thragwyddoldeb—y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân; y mae genyf ddigon o anhawsdra! Y mae fy neall yn cael ei suddo mewn dyryswch, fy amgyffrediadau eu dyrysu mewn tywyllwch o'r mwyaf dudew. Yr wyf yn sefyll, yn petruso, yn gofyn pa angenrheidrwydd sydd wrth y fath ddatganiad. . . . Ond a ydyw hyn ddim yn dyrysu yn holl synwyrau, ac yn gwneyd i ni arfer *geiriau* heb feddwl iddynt? Yr wyf yn meddwl ei fod. Yr wyf yn cyfaddef, ac yn cyhoeddi fy nyryswch yn y modd mwyaf diamheuol. Yr wyf yn ei wneuthur yn rhan hanfodol o'm datganiad. Pe cymerwn arnaf ddeall beth yr wyf yn ei ddywedyd, gallwn fod yn dri-dduwiad, neu'n anghredadyn; ond ni allaswn addoli yr un gwir Dduw, a chyfaddef Iesu Grist yn Arglwydd pawb oll. Gallasai hyneddu i ddwyn oddiamgylch gymhedroldeb, ac yn y diwedd gyttundeb, pe byddem yn ofalus ar bob achlysur i osod allan ein hathrawiaeth ein hunain (y Drindod) fel yn hollol annealladwy."

Felly gwelwch fod genym *gase* lled dda wedi ei wneuthur allan yn erbyn y Drindodiaeth. Dyma fe yn fyr: y mae Iesu Grist yn tystio nad oes eisiau i ni gwrando arno ef cyn ei ddeall; cawsom yn y dyfyniadau a wnaethom o athrawiaethau'r Iesu ei bod hi felly; cawsom ymhellach fod Trindodiaid yn esgedig eu hunain yn addef fod athrawiaeth Crist yn hawdd ei deall, ac ar

yr un pryd yn dywedyd yn bendant mai dirgelwch yw Trindod nas gellir e amgyffred; felly y maent wedi gosod sêl eu cyfaddefiad eu hunain i ardystio mai nid Cristnogrwydd yw Trindod, nac un athrawiaeth annealladwy arall. Trueni, onide, yw eu bod wrth ddarllen geiriau'r Iesu, yn gosod eu credo arnynt yn gyntaf: pa fodd wed'yn y gallant weled trwyddi, a chanfod meddwl Iesu? Trown gan hynny oddiwrth y dirgelwch, y dyryswch, y diffaethwch, y tywyllwch, y *luminosissimæ tenebræ* yma, yr hyn sydd wedi gyrru llawer fwy na hanner y ffordd i wallgofrwydd, os nid i *inffideliaeth*, fel y gwelsom yn barod:—Trown, meddaf, oddiwrth y tywyllwch teimladwy hwn at yr Iesu, y prophwyd o Nazareth; ac Oh! mor hyfryd yw bod gydag ef. Os y'nt hwy yn dywyll, yn addefedig felly, y mae ef yn oleu; os dirgelwch sydd ganddynt hwy, goleuni y byd yw'r Iesu; a chofiwn, mae o bwys dirfawr i ni gofio hyn, "mai hon yw'r ddamnedigaeth neu'r condemniad, ddyfod goleuni i'r byd, a charu o ddynion y tywyllwch yn fwy na'r goleuni." Aroswn gan hyny yn y goleuni; rhodiwn fel plant y dydd; glynwn wrth ein proffes; awn ar ol Iesu, haul cyfiawnder, trwy anghlod a chlod, amharch a pharch hyd y diwedd, fel y gallom dramwy'n ddiogel yn llewyrch ei wirionedd ef trwy ddyffryn cysgod angeu ei hun, nes tirio yngwlad yr haf tragwyddol, i ganu'r *anthem* nefol yr ochr draw. Amen.

DOCTOR BEATTIE A'I FAB.

Peth dymunol wrth addysgu plant yw cymmeryd gwersi oddiwrth wrthrychau gweledig. Ni wnaethpwyd hyny erioed yn fwy tarawiadol nac yn fwy llwyddiannus nag ar yr amgylchiad y cyfeirir ato yn yr enghraifft canlynol:—

Y mae Dr. Beattie wrth siarad am ei fab yn dywedyd fel y canlyn: "Yr oedd wedi cyrhaedd pump neu chwech oed, yr oedd yn gwybod ei lythyrenau, ac yn gallu darllen ychydig bach; ond nid oedd wedi derbyn un wybodaeth neillduol am Awdwr ei fod. [Nid oedd ei dad yn sicr yn ddifai am yr esgeulusdod yma.] Yng nghornel gardd fach, ac heb ddywedyd gair wrth neb am hyny, ysgrifenais dair lythyren gyntaf ei enw â fy mŷs yn y pridd, ac wedi hau crasson (berw'r gerddi) yn y rhychiau, cuddiais yr hâd a gwastottais y pridd. Ymhen deg diwrnod wedi'n, daeth ataf fi dan redeg, ac mewn syndod mawr dywedodd wrthyf fod ei enw yn tyfu yn yr ardd. Chwerthinais ac ymddangosais fel yn anfoddlon i'w gredu; ond yr oedd yr rhaid i mi fyned a gweled beth oedd wedi digwydd. Wedi dyfod i'r fan—"Ydyw, meddwn yn ddiofal, gwelaf ei fod. Ond beth sydd o werth sylw yn hyny? Nid oedd ond digwyddiad?" a ffwrdd â mi. Dilynodd fi, a chan gydio yn fy nghot dywedodd mewn modd tra difrifol, nas gallai hyny gymmeryd lle trwy ddamwain, fod yn rhwym o fod rhyw un wedi trefnu i hyny fod. 'Ac felly yr ydych yn credu,' meddwn i, 'nas gallai yr hyn sydd yn ymddangos mor rheolaidd a llythyrenau eich enw chwi, ddim cymmeryd lle trwy ddamwain?' 'Ydwyf, yr wyf yn credu hyny yn gadarn,' meddai efe. 'Edrychwch arnoch eich hunan,' meddwn i; ystyriwch eich dwylaw a'ch bysedd, a'ch coesau a'ch traed a'ch aelodau ereill; onid ydynt yn rheoleiddd yn eu hymddangosiad ac yn ddefnyddiol i chwi.' Dywedodd eu bod. 'A ddaethoch chwi ynte i'r byd yma trwy ddamwain?' 'Na,' meddai, 'nid gall hyny fod, rhaid fod rhywbeth wedi fy ngwneuthur.' 'A phyw ydyw rhyw beth hwnw?' meddwn i. Attebodd yntau nas gwyddai ef. Yr oeddwn yn awr wedi ennill fy amcan, ac yr oeddwn yn gweled fod ei reswm

yn ei ddysgu (er nas gallai efe ddim rhoddi adroddiad o hyny) fod yn rhaid fod achos i bob peth sydd yn dechreu bodoli; a bod yn rhaid bod achos deallol i bob peth sydd wedi ei ffurfio yn rheolaidd. Am hyny dywedais wrtho enw y Bod Mawr a'i gwnaeth ef a'r holl fyd, a rhoddais iddo ryw ychydig o wybodaeth am dano o'r fath ag yr oeddwn yn tybied y gallai i ryw raddau ei amgyffred. Cafodd y wers ddylanwad mawr ar ei feddwl, ac nid anghofiodd mo hono na'r amgylchiad a'i dygodd i'w sylw." T. N.

MARWOLAETH Y PARCH. OWEN EVANS.

Ionawr 9fed, bu farw y Parch. Owen Evans, Cefncoed-y-cymmer, yn 57 mlwydd oed. Y mae cyfeiriadau parchus iawn at ein hanwyl gyfaill ymadawedig wedi cael eu gwneuthur yn y *Merthyr Telegraph*, y *Merthyr Express*, yr *Aberdare Times*, yr *Unitarian Herald*, a'r *Inquirer*. Y mae'r cyfeiriad yn yr *Express*, yn gyfieithedig, rhywbeth fel y canlyn—

"Y mae genym yr wythnos hon i gofnodi marwolaeth boneddwr ag oedd yn adnabyddus ac yn cael ei barchu, nid yn unig yn yr ardal yma ond hefyd dros hyd a lled Deheudir Cymru—sef, y Parch. Owen Evans, gweinidog y Capel Undodaidd yn Cefncoed-y-cymmer. Yr oedd Mr. Evans yn enedigol o sir Aberteifi, sir, er yn dlawd o ran elfenau llwyddiant masnachol, sydd etto yn cael ei hynodi yn fawr am ddau beth—sef bod yn agos yn rhydd oddiwrth bob troseddau mawrion, ac wedi rhoddi genedigaeth i lawer o ddynion enwog—fel ysgolheigion, pregethwyr, beirdd, haneswyr, heb ddywedyd dim am hynafiaethyddion, a dynion llai eu bri, mewn oesoedd diweddarach, neu am Sant Dewi, nawdd-dduw Cymru yn yr amser gynt. Ym mhlith ysgolheigion, gallwn enwi y diweddar Archddiacon Williams, D. Silvan Evans, &c. Ym mhlith pregethwyr, Rowlands, Llangeithio, Christmas Evans, Lewis Edwards, Philips o Fangor, &c.; fel beirdd, Daniel Ddu, Edward Richards, ac awdwr "Telyn Dewi," ac ym mhlith haneswyr, Johnes o'r Hafod, y Parch. David Peter ac ereill. Yr oedd yr *outcrop* yma o nerth deallol yn ddyledus, digon tebyg, i Ysgolion Grammadegol, Ystrad Meurig, Castell Hywel, Coleg Llanbedr, &c., yn gystal ag i yni meddyliol trigolion y wlad fugeilyddol hono; ac i'r fath raddau yr oedd y gwrtaith yma yn eyrhaeddyd, fel nad oedd o fewn amser diweddar iawn mewn cymhariaeth, ddim yn beth anghyffredin i gwrdd a ffermwyr ifeinge, y rhai oeddent mor alluog i ddarllen, cyfieithu a chystrawenu Horace, ag i ddàl yr aradr.

Yr oedd ffrwyth yr archwaeth cyffredin yma am fyfyrdodau clasurol a chyddegol yn amlwg iawn yn y diweddar Barch. Owen Evans. Yr oedd efe i rieni yn gwerthfawrogi addysg dda yn fawr, ac ar ol rhoddi iddo addysg ragarweiniol dda danfonasant ef i'r Coleg Presbyteraidd yng Nghaerfyrddin. Yma yr oedd yn fyfyriwr astud, ac wedi treulio'r amser arferol, cafodd ei alw i'r weinidogaeth. Tueddwyd ef ar y cyntaf i adael gwlad ei enedigaeth, a mynd i wasanaethu fel cynnorthwywr i'r diweddar Barch. Timothy Davis yn Evesham, yn Worcestershire (?) Ond wedi ail-ystyriaeth meddyliodd ei fod yn gwedi gwneud yr hyn ni ddylasai wrth adael gwlad ei enedigaeth. Yr oedd yn teimlo fod ar ardaloedd tlawd Cymru fwy o angen am ei wasanaeth nag eglwysi cyfoethocach Lloegr; ac o ganlyniad gydâ chydwybodolrwydd a thueddfryd at offeiriadoliaeth *(sacerdotalism)*, y rhai oeddynt elfenau amlwg yn ei gymmeriad, gadawodd sefyllfa dda mewn ufudd-dod i alwad dyledswydd, a daeth i lafurio am bedwar swllt ar ddeg yr wythnos i gapel anghys-

bell Blaengwrach yng Nghwm Nedd. Oddiyno tueddwyd ef i ddod i'r Cefn, lle y bu yn gwasanaethu i gynnulleidfa fach a thlawd, etto ffyddlawn, am gyflog yr hon oedd yn anfynych yn cyrhaedd i £30, am yspaid 28 mlynedd o amser; ac yn yr amser hyny cymmerodd ran weithgar a zelog yng nghyfarfodydd cwarterol a blynyddol yr Undodiaid yn Neheudir Cymru, yn gystal ag yn y dadleuon llenyddol a duwinyddol a gyfodent o bryd i bryd. Terfynodd weinidogaeth faith a ffyddlawn hwyr nos Lun diweddaf. Bu yn y *Board of Guardians* dydd Sadwrn, pan yr oedd yn ymddangos yn glaf, ond ni wnaeth achwyniad. Wedi iddo gael ei gario adref, yr oedd yn analluog i gerdded, gorfu iddo fyned i'r gwely. Boreu dydd Sul pregethodd fel arferol; ond dywedodd ei fod yn teimlo yn glaf, ac na fyddai yn alluog i roddi ond pregeth fer. Yr oedd yn analluog i bregethu yn yr hwyr. Ar hwyr nos Lun, cafodd angel marwolaeth ef yng nghanol ei deulu, a chyffyrddodd yn dawel ag ef wrth fyned heibio; syrthiodd y *newspaper* yr hwn yr oedd yn ei ddarllen allan o'i law; syrthiodd yntau yn ol yn ei gadair gydag ochenaid wanaidd; mewn eiliad, yr oedd y cyfnewidiad o amser i dragwyddoldeb wedi ei gyflawni; yr oedd ymdrech bywyd drosodd, yr yspryd wedi dychwelyd ato Ef yr hwn a'i rhoddodd, ac Owen Evans wedi myned i dderbyn gwobrwy y cyflawnion wedi eu perffeithio. Yr oedd y meddwl, yma mor fywiog, wedi gorphwys oddiwrth ei lafur; yr oedd y tafod a draethai mor hyawdl am enwau Lladin, a berfau Groeg, a gwreiddeiriau Hebraeg, ac ieithweddau Syriaeg, wedi ei ddistewi am byth; a'r cwbl oedd yn aros o'r dyn, yr ysgolhaig, yr ieithwr, a'r duwinyddwr, oedd ffurfdynol difywyd; a'r argraph bywiol yng nghoffadwriaethau cyfeillion cariadus. Bu farw yn y 57fed flwydd o'i oedran.

Y mae'n ymddangos fod ganddo fath o ragfeddwl fod ei bererindod daearol yn agos at y terfyn, oblegid ar Ddydd Calan cymmerodd yn destun geiriau Jeremiah xxviii. 16, "O fewn i'r flwyddyn hon y byddi farw." Cyfeiriai at enwau ei frodyr yn y weinidogaeth, a'i gydysgolheigion y rhai oeddynt wedi ymadael a'r bywyd hwn y flwyddyn ddiweddaf, a siaradai yn argraphiadol am ei iechyd methiannus ei hun ac am ansicrwydd cydnabyddedig bywyd dyn. Bu'n briod ddwy waith, ac y mae yn awr wedi gadael gweddw a thri o blant bychain i alaru o herwydd colli yn ddisymmwth ŵr caruaidd a thad serchog.

Nid oes yn aros i ni ond yn unig rhoddi braslun o brif nodau ei gymmeriad. Fel ysgolfeistr yr oedd yn cael ei garu gan ei ysgolheigion; fel pregethwr yr oedd yn fynych yn ystyrlawn ac argraphiadol, a phob amser yr oedd yn llawn bywiogrwydd. Fel duwinydd Undodaidd yr oedd yn perthyn i hen ysgol Priestley a Belsham yn hytrach nag i ysgol newydd Channing a Martineau. Ar bwysfawrogrwydd y swydd offeiriadol, yr oedd yn dàl at yr olwg gaeth—"unwaith yn offeiriad, offeiriad byth wedi'n;" a daliai mai hyn oedd y gwaith mwyaf urddasol y gallasai ymgymmeryd âg ef. Yr oedd yn wastad yn barod i roi addysg clasurol i ddynion ieuainge o bob enwad, ar yr unig delerau eu bod yn ymgyflwymo at waith y weinidogaeth. Yr oedd yn ysgolhaig da, yn hyddysg iawn mewn llenyddiaeth cyffredinol, ac yr oedd yn fyfyriwr caled mewn beirniadaeth feiblaidd a duwinyddiaeth hyd ddiweddu e ddyddiau. Fel *Guardian* y tlawd yr oedd bob amser yn oleddu at och trugaredd. Yn ei fywyd anghyhoedd cerid ef yn gyffredinol, a'r rhai hyny a'i parchent fwyaf y rhai oeddynt yn ei adnabod yn fwyaf trwyadl."—*Merthyr Express, Jan.* 13, 1865.

Cymmerodd ei angladd le y dydd Gwener canlynol. Cyn cychwyn o'r tŷ darllenwyd a gweddiwyd gan y Parch. Titus Lloyd o'r Notais; ac yn yr Hen-dŷ-cwrdd awd trwy y gwasanaeth gan y Parch. Thomas Thomas, Pantydefaid. Cymmerodd ei destun o'r Epistol at yr Hebreaid (xiii. 7), "Meddyliwch am eich blaenoriaid, &c." Yr oedd yn hynod o darawiadol, ac yr oedd y sylwadau yn bwrpasol dros ben.

Yng nghyfarfod y Merthyr *Board of Guardians* dranoeth i'r angladd, pan oedd Rector Merthyr yn myned i annerch y *Board* ar farwolaeth Mr. Evans, stopiwyd ef mewn modd *polite* gan

Y Cadeirydd (Mr. G. J. Clarke), yr hwn a ddywedodd: Yr oeddwn yn aros cyfleusdra i annerch y *Board* ar y pwnc hwn. Yr wyf yn meddwl, fel cadeirydd, na fyddwn i ddim yn gwneud fy nyledswydd na thuag atoch chwi na thuag at yr aelod a gollasom, oni fuaswn yn galw eich sylw at y ffaith ein bod wedi colli un o'r dynion mwyaf anymddibynol, selog, a chydwybodol a eisteddodd erioed yn y *Board* yma, yn mherson Mr. Evans. Yr oedd ei iechyd yn ddiweddar wedi bod y cyfryw ag i'w rwystro i ymweled yn gysson â'r *Board*; ond os buasai unrhyw gwestiwn o bwys yn dyfod ym mlaen, yn yr hwn y byddai *vote* anymddibynol o wir wasanaeth, yr oedd efe yn dyfod. Yr hyn sydd genyf yn neilduol i'w ddywedyd o barthed iddo ef yw, tra mae y tlawd ar yr un llaw wedi colli cyfaill gwerthfawr, nid oedd un *Guardian* yn fwy boddlawn bob amser i wneuthur cyfiawnder â'r *ratepayers*. Yr wyf yn meddwl ei fod yn teimlo dros y tlawd, ac yr wyf yn meddwl hefyd os ydym ni yn teimlo ein bod wedi colli aelod da, y mae'n rhaid fod tlodion pentref y Cefn yn teimlo eu bod wedi colli cyfaill. Y *compliment* uwchaf a ellir dalu iddo ef yw, fod y Rector, rhwng yr hwn a Mr. Evans yr oedd y gwahaniaeth barn mwyaf possibl mewn pethau crefyddol yn bodoli, yn teimlo yn awyddus i uno yn yr arwydd o barch i gael ei dalu iddo.

Dywedodd Mr. Griffith (y Rector): At yr hyn sydd wedi syrthio oddi wrth y cadeirydd ni ychwanegaf yn mhellach na dywedyd, y gwn oddiar brofiad ymarferol fod pentref y Cefn wedi colli'r fath ddyn fel nad wyf fi ddim yn gweled fod ganddynt neb i ddod i fyny iddo. Nid wyf fi ddim yn meddwl y gall fod colled mwy.

Unodd y *Board* yn yr arwydd o barch a wnaethpwyd yn y modd yma i goffadwriaeth y boneddwr ymadawedig."—*Aberdare Times*, *Jan.* 21, 1865.

Dydd Sadwrn, y dydd diweddaf o'r flwyddyn, yr oedd yn pregethu yn angladd bachgen bach oedd wedi cael ei ddiwedd dan y ddaear, ac yno mae yn debyg, wrth gyfeirio at yr ymadrodd yn y Llyfr Gweddi Gyffredin, 'Oddi wrth farwolaeth ddisyfyd, gwared ni Arglwydd daionus," dywedodd na ddymunai efe un farwolaeth o well, nad oedd un yn felusach yn ei olwg ef, nad oedd arno ef ddim ofn marw, ond yr oedd arno ofn hir boeni. Yr oedd wedi dywedyd yr un peth ragor nag unwaith yn ystod y mis cyn iddo farw. Bu farw fel yr oedd yn dymuno—ar unwaith, heb gystudd, heb boen. Ei idolur oedd clefyd y galon. Yng nghanol ei waith a'i ddefnyddioldeb daeth Mab y Dyn, a symmudwyd ef ymaith. Boed i ninnau gofio mai yn y dydd 'r awr na thybiom y bydd iddo etto i ddyfod, a cheisiwn, hyd y gallom, fod n barod. Boed i'r weddw a'r amddifaid gyssur a diddanwch y Tad Mawr, nerth a gaffont i ddweyd "ewyllys yr Arglwydd a wneler." Boed mwy o mdrech a ffyddlondeb, mwy o undeb a brawdgarwch nag erioed yn yr rglwys sydd dros dymmor wedi ei gadael ym amddifad.

Y DDAU DDARLUN.

"Na orchfyger di gan ddrygioni, eithr gorchfyga di ddrygioni trwy ddaioni."—*Paul.*

(Parhad o'r Rhif. diweddaf.)

Yr ydym wedi bod yn aros ychydig uwchben y darlun du; dyn yn cael ei orchfygu gan ddrygioni. Nid peth hyfryd yw syllu ar anrhaith dinasoedd y gwastadedd, neu ar erchylldod maes y gwaed, dranoeth wedi brwydr. Ni a drown gan hyny yn awr at ochr oleu y ddalen: *dyn yn gorchfygu drygioni trwy ddaioni.*

A ydyw hyn yn bosibl? Ymddengys ei fod. Mae yr Ysgrythyrau drwyddynt oll yn cydnabod y cyfryw bosiblrwydd. Mae y "ceryddu am anwiredd" a dderbyniai cenedl Israel yn ystod ei dysgyblaeth o dan Moses, y barnwyr a'r brenhinoedd; mae cyffesiadau dwysion a hunan-gondemniol y Salmydd; mae bygythion a rhybuddion proffwyd ar ol proffwyd, yn dwyn tystiolaeth i hyn. Onid bod i ddyn orchfygu drygioni trwy ddaioni a olygai Ezeciel pan ddywedai: "Bwriwch oddiwrthych eich holl gamweddau y camweddasoch ynddynt, a gwnewch i chwi galon newydd, ac yspryd newydd: canys paham tŷ Israel y byddwch feirw?" Dugir y cyfryw bosiblrwydd yn fwy i'r amlwg fyth yn y Cyfamod Newydd—breinlen rhyddhad dyn o gaethiwed pechod. Newyddion da o lawenydd mawr yw yr Efengyl am mai gwaredigaeth foesol yw baich ei chenadwri. Llawn gobaith i ddyn, ac anogaethol i'r eithaf i rinwedd, yw addysg yr hwn a "ymddangosodd fel y dattodai weithredoedd diafol," ac a ddaliai allan ger bron ei ddysgyblion fel nod uwchaf bywyd: "Byddwch chwi yn berffaith, fel y mae eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd yn berffaith." Mae hanes dynolryw drachefn yn ein helpu yn y mater hwn; yn wir yn penderfynu ar unwaith y posiblrwydd i ddyn orchfygu trwy ddaioni. Mae miloedd eisioes wedi eu symud o'r tywyllwch i'r goleuni; o feddiant Satan at Dduw. Gwelwyd cyn hyn yr erlidiwr yn d'od yn Apostol, y cablwr yn weddiwr; y meddwyn yn sobr, yr anghyfiawn yn gyfiawn. Gwelwyd y trahaus yn diosg ei draha ac yn ymwisgo â gostyngeiddrwydd. Mae yr engreifftiau hyn yn hanes yr hiliogaeth yn gynifer o gofnodion buddugoliaeth *(trophies)*; yn dangos pa beth a wnaed; pa beth a ellir ei effeithio eto.

Fel hyn fe ymddengys fod ym mhwer dyn i ymnewid mewn newydd-deb buchedd o ddrwg i dda. Er i ddrygioni orchfygu dyn, fe all daioni i brynu'r dyn yn ol o'r caethiwed. Fe all dyn faeddu'r gelyn-ddyn. Mae gwendid rywle yn y drwg. Hanes gloff a bratiog, lawn o ofn a chywilydd yw hanes drygioni. Aiff ym mlaen yn rhyfedd ond iddo gael ei ffordd ei hun. Ond gwrthwynebwch ddiafol—"efe a'ch llarpia, efe a'ch tyr yn friwsion yn ei balfau, efe a'ch sathra fel llwch yr heol o dan ei draed," medd rhywun. Na wnaiff. Y *coward!* na wnaiff. Gwrthwynebwch ef, ac fel pob un enog, efe a ffy oddiwrthych. Trech yw gonestrwydd nag anonestrwydd, gwirionedd na chelwydd unrhyw awr o'r dydd. Pa bryd bynag y mŷn, fe all purdeb a diniweidrwydd edrych aflendid ac euogrwydd i gywilydd. "Asgre lân diogel ei pherchen."

"Mae'n llawn amynedd dan bob cur,
Mae'n barod yn y nef yn byw."

Pe fedr daioni orchfygu'r drygioni fo yno ti dy hun, ac yn arall hefyd. "Ie, mae'r cryf arfog yn cadw'r neuadd." Dichon ei fod. Ond pan ddaw un cryfach na'r cryf arfog, bydd yn bryd iddo feddwl am symud ei le. "Yn

hyn a aned o'r cnawd yn erlid yr hyn a aned o'r yspryd" oedd hi, pan oedd y dyn o dan draed ei ddrygioni; ond yn awr "etifedd y wraig rydd," yr hyn a aned o'r yspryd, a'i pia hi.

Onid rhaid fod daioni yn gryfach ynddo ei hun, ac yn y pendraw o angenrheidrwydd yn alluoeach na drygioni? Paham? Mae dau reswm. Fel hyn y gallesid dysgwyl iddi fod, os mai Bod perffaith sydd wrth y llyw. Ni adawsai y fath Fod bosiblrwydd i ddrygioni gael y llaw uwchaf yn ei lywodraeth. Hunan-ddinystr fuasai hyny. Heblaw hyn mae profiad a hanes genym i apelio attynt. Nid ydys wedi cael eto i fod drygioni yn fuddugoliaethus yn y diwedd. Nacaol yn ei natur yw drygioni o bob math. Mae'r byd wedi cael digon o amser i'w adnabod erbyn heddyw, ac i'w fedyddio yn gywir. Ac ni a wyddom pa deitlau a gaiff. Fe'i gelwir yn gaethiwed, yn dywyllwch, a marwolaeth. Pethau nacaol, gwan, y rhaid iddynt diflanu, yw pob un o'r rhai hyn. Ni ddâl caethiwed ei dir ond hyd nes y delo rhyddid â braich nerthol i fwrw ymaith y cadwynau. Esgyned yr haul i'r entrych, a'r tywyllwch ni bydd mwy o hono. Yr un modd gyda marwolaeth. Nid yw ond absenoldeb bywyd. Fe bair bywyd i'r llygradwy i wisgo anllygredigaeth, a'r marwol i wisgo anfarwoldeb. Er i'r gelyn ddyfod i mewn fel afon, Yspryd yr Arglwydd, yn cael ei roesawu gan feddwl dyn, a rhyddrediad yn cael ei roi iddo, a'i hymlid ef ymaith.

Er fod modd i ddyn orchfygu drygioni trwy ddaioni, gellir sylwi mai gwell fyddai cau allan yr angenrheidrwydd am hyn. Gwell, os yn bosibl, a fyddai rhagflaenu darostyngiad dyn o dan draed y drwg. Cadwer drygioni allan hyd y gellir; gwr peryglus i'w letya yw; gedy ei ol yn hir, a medr weithio niwed mawr. Y cyfarwyddyd blaenaf a phwysicaf tuag at hyn yw: "Hyforddia blentyn ym mhen ei ffordd." Gofaler agor llwybr rhinwedd o'i flaen, ac nid ei gau â drain, fel y gwneir yn aml. Meithriner ei serch at bob peth cyfiawn a sanctaidd a da. Rhoer chwarae teg i'r plentyn megys i'r oren, *i dyfu i fynu*. Nid oes eisieu i ni saernio gwaith natur; dim ond rhoi pob cyfle teg iddi hi i weithredu; symud y rhwystrau oddiar y ffordd, a gofalu am weini maeth priodol.

Ond hyd yn oed os bydd drygioni wedi cael yr oruchafiaeth am dymhor, ni raid anobeithio. Mae modd dwyn yr yspail oddiar y cadarn. Gallu Duw i adgenedlu'r byd yw'r Efengyl. Tra bo gwirionedd a rhinwedd yn llu Duw yn y byd, hi fydd yn bosibl gorchfygu drygioni trwy ddaioni. Pa odd y mae i ddyn ymosod ar y gorchwyl mawr hwn?

Yn y lle cyntaf, *rhaid iddo benderfynu cydsynio ag amodau daioni*. Ar amodau y cynygir yr oruchafiaeth, a rhaid cwympo i mewn yn weithredol â hwynt. Nid wrth ddim ond meddwl ac ewyllysio y darostyngir drygioni, ond nag y gall y naill blaid mewn rhyfel ddarostwng y llall yn unig trwy ewyllysio'r peth. Nid oes neb, yn debyg, yn ei ddrygioni nad yw ar brydiau yn meddwl am ddiwygio, nad yw yn cael ei gyffroi ar brydiau i ewyllysio bod yn debyg i ryw ddyn da o fewn cylch ei adnabyddiaeth. Ond gyda hyn rhaid yw iddo wisgo'r arfau, a chymeryd y maes, ac ymladd hyd farw.

Rhaid llanw'r meddwl a phethau gwell nag o'r blaen. Rhaid newid gwrthrychau'r serchiadau. Rhaid i degwch rhinwedd gael ei ddadlenu o flaen yr hwg. Y ffordd i dawelu plentyn with gymeryd rhyw degan oddiarno, yw rhoi angos iddo ryw wrthrych arall i dynu ei fryd. Felly gyda dynion mewn oed dran hefyd. Rhaid rhoi testunau newyddion i'r meddwl ymdrafod â hwynt, a llwybr rhydd i'r gydwybod i ddwyn ei thystiolaeth yn ffyddlawn.

Rhaid i'r holl fywyd gael ei gymeryd i fynu gan weithgarwch newydd. Nis gall dyn fod yn llestr gwag. Os am ddwyn rhyw beth oddiarno, rhaid iddo gael rhywbeth arall yn ei le. Mae yn hen ddywediad fod "natur yn casau gwagle;" fe weithia yr awyr ei ffordd i bob twll ac agen. Yr un modd, fe fyn meddwl dyn ei lanw â da neu ynte â drwg. Nid crys yn wag a diwaith.

Gwneler defnydd o'r daioni sy'n aros yn y dyn. Yr oedd Archimedes yn credu y gallai symud y byd pe cawsai atteg *(fulcrum)* i bwyso ei drosol arni. Rhaid i ddyn yn gyffelyb pan am effeithio symudiad neu gyfnewidiad er gwell, ai ynddo ei hun neu yn arall, yspio am atteg i orphwys y drosol arni: y daioni fo eto yn aros. A oes yna, tybied, ryw gymaint o ddaioni yn aros? Diau fod. Nid yw yn orchwyl mor hawdd i waghau dyn o bob daioni. Chwi a welsoch bren wedi ei nyddu, i ryw ddyben neu gilydd, o'i ffurf a'i rediad priodol. Yn lle gadael iddo redeg i fynu, troisid ef i gydredeg â'r llawr. Ond er y cwbl, tra'r oedd bywyd yn para yn y pren, a gwiail bach yn saethu allan o'r hen foncyff, nid dilyn cyfeiriad y boncyff a wnaent, eithr esgyn i fynu y cyfeiriad naturiol. Felly hefyd y mae hi gyda dyn; ni chyll yn llwyr ei duedd naturiol at rinwedd. Eled cynddrwg ag yr elo, nid oes yr un dyn eto wedi hala gwaddol natur i gyd. Neu dyhed dweyd yn hytrach, fe allai, nad oes un dyn eto wedi gwario ei etifeddiaeth naturiol yn llwyr, ac nas gall chwaith, am ei bod yn rhwym wrth yr hiliogaeth, ac wrtho yntau fel un o honi. Gall fod yna waith dirfawr i'w wneyd. Dim ond braidd y sail, dichon, sydd yn aros, ac ambell ddarn o'r muriau; eto ond gweithio ar y sail yna mae gobaith am adeilad hardd a chadarn. teml lan i Dduw Hollalluog breswylio ynddi. "A gwneyd y goreu, fe fydd ysmotiau duon yn aros." Boed felly. Mae brychau ar wyneb yr haul, ond ar awr canoldydd, pa bryd bynag o ran hyny y bo ei belydrau yn llewyrchu yn nerthol, ni hidir mo'r brychau. Ynfyd fa'i'r dyn a siaradai yn ddiorphen am frychau yr haul pan y mae'r awyr yn ddigwmwl, a'r tes tirion yn chwarae. "Llewyrched felly eich goleuni ger bron dynion," a cher bron Duw, ac ni feddylir am yr ysmotiau duon. Os yng ngafael a gwaith daioni o lwyr fryd calon, ni fydd gan y dyn hamdden i golli amser gydag aros uwchben y fuchedd aflan gynt. Aiff rhagddo o ymdrech i ymdrech, gan deimlo nad yn unig fod ei bleser, ond hefyd ei nerth i wrthwynebu pob drwg, yn cynyddu. At y pum talent a gawsai ychwanega bump eraill trwy ddiwydrwydd a phenderfyniad. Gelwir y sawl a orchfygo ddrygioni trwy ddaioni yn y modd hwn yn greadur newydd. Nid newydd o gyneddfau sylwer; ond newydd yn ei arferion; un a chanddo gyfeiriad newydd. Nid y tir sydd newydd; yr hen dir yw, ond ei fod wedi ei ddarostwng o dan driniaeth newydd.

Ni chyrhaeddir yr oruchafiaeth hon heb ddyfal bara. Nid mewn un dydd y daw'r gwaith i ben. Gall y rhyfel bara yn hir. Dichon y cei di lawer maeddgen ddiffaith, llawer codwm, llawer clwyf. Pan y llaesot ti dy afael, fe dry dy elyn ei wyneb tuag yn ol yn ebrwydd. Fe all pob un i raddau ddweyd gyda'r bardd:

> "Mi feddyliais yn y bore, Buaswn amser maith cyn hyn
> Wedi maeddu fy mhechodau, Ac yn canu ar Seion fryn;
> Swn y frwydr, Ydyw'r lle'r wy' eto'n byw.

Yn y cyffredin, parha y rhyfel i raddau mwy neu lai hyd y diwedd. Ond nid yw yn amheus yn holl amser hyn o du pwy y try y fuddugoliaeth. Mae hyny wedi ei benderfynu. Gyda'r goreu o saint Duw, mae hi ar brydiau fel yn tori allan yn wrthryfel *(rebellion)*. Hen arferion drwg a fu'n tyfu gyda

thyfiant dyn ac yn cryfhau gyda'i gryfder ; anhawdd iawn eu difodi'n llwyr. "Torrer eu penau." Ni thal hyny, hwy a flagurant eilwaith, ac a wasgarant eu hadau gwenwynig. Eu diwreiddio, hyny yn unig a'u difa. Hauer hadau da yn y maes, o natur i orthrechu'r chwyn drwg. Ni thal gildio. Os yw siol yr hen sarff wedi ei sigo, hi a all ymddirwyn a chwythu yn gas ar ambell dro, ond ni wna nemawr niwed mwyach.

Pa beth a gawn ni wneyd ? Ai cymeryd ein darostwng gan ddrygioni nes myned yn sarnfa o dan ei draed, a gadael i'r bywyd a allai fod mor hardd ac mor doreithiog o rinweddau nefol i redeg yn anialwch gwyllt ? Na ato Duw. Y fuddugoliaeth benaf ar y ddaear, yw yr hon a enillir ar nwydau a thueddiadau ac arferion drwg. Mwy o anrhydedd yw hyn nag enill dinasoedd dawer ; mwy na helaethu terfynau teyrnas ; mwy na thyru amlder o olud ; mwy na esgyn i binacl eithaf clod ac urddas daearol. Yr hwn a orchfygo trwy ddaioni, bydd ei glod nid o ddynion ond o Dduw. SUETONIUS.

O.Y.—Yn y rhan gyntaf o'r ysgrif hon, yn y rhifyn diweddaf, tud. 9, llin. 19 o'r godre, rhwng "byd" ac "yma," gadawyd allan y geiriau "*Yma y cawsom ni ef ;*" tud. 10, llin. 10 o'r godre yn lle "bobl" darllener "*pobl ;*" tud. 11, llin. 19 o'r godre yn lle "caiff" darllener "*aiff.*" Mae mân wallau eraill.

Y DDAU GYMMYDOG A'R GIEIR.

ADRODDODD un dyn yr hanes canlynol wrthyf un waith, am dano ei hunan ac un o'i gymmydogion.

Yr oeddwn unwaith yn berchen ar dŵr mawr o ieir. Yr oeddwn yn yffredin yn eu cadw yng nghau. Ond, un gwanwyn, penderfynais i adael idynt i redeg yn y clös, ar ol tori eu hadenydd fel nad allent ehedeg. Un iwrnod, pan ddaethum adref i giniaw, cefais ar ddeall fod un o'm cymydogion wedi bod yno, yn llawn natur ddrwg, yn dywedyd fod fy ngieir i edi bod yn ei ardd ef, a'i fod wedi lladd amryw o honynt, a'u taflu drosodd m clôs. Teimlais yn ddigllawn iawn ei fod wedi lladd fy ngieir, y rhai a erthfawrogwn gymmaint. Penderfynais ar unwaith i ymddial, a rhoi cyfith arno, neu yn rhywfodd neu gilydd i gael iawn. Eisteddais i lawr a wytëais fy nghiniaw mor dawel ag y medrwn. Erbyn fy mod wedi gorphen m bwyd, yr oeddwn wedi dyfod yn fwy tawel, a meddyliais mai nid y peth reu i mi oedd ymladd a'm cymmydog am y gieir, a thrwy hyny ei wneud elyn chwerw a pharhaol i mi. Penderfynais dreio ffordd arall, gan imlo'n sicr ei fod yn well.

Wedi ciniaw, aethum at fy nghymmydog. Yr oedd yn ei ardd. Aethum an, a chefais ef yn rhedeg ar ol un o fy ngieir a phren mawr yn ei law, yn sio ei lladd. Cyfarchais iddo. Trodd arnaf, a'i wyneb yn tanio gan ddifaint, ac yu ei ffyrnigrwydd mawr torodd allan—

"Yr ydych wedi gwneud cam â mi. Mi a laddaf eich gieir bob un, os laf ddod o hyd iddynt. Ni wnawd y fath gam erioed â mi. Y mae fy ardd wedi ei distrywio."

"'Y mae'n ddrwg genyf am hyny,' meddwn innau. 'Nid oeddwn yn muno gwneud niwed i chwi, ac yn awr yr wyf yn gweled fy mod wedi wneud camsyniad mawr wrth ollwng y gieir allan, yr wyf yn gofyn eich ddeuant, ac yr wyf yn foddlawn talu chwech gwaith gwerth y niwed a oddefasoch.

"Ymddangosai'r dyn fel un wedi dyddelwi. Ni wyddai beth i wneud o hono. Edrychodd i fyny at y cymmylau—wedi hyny i lawr at y ddaear—ac wedi hyny at ei gymmydog—wedi hyny at y pren yn ei law—wedi hyny at yr hên iar druan yr hon y bu efe'n rhedeg ar ei hol—ond ni ddaeth gair dros ei enau.

"'Dywedwch wrthyf yn awr,' meddwn i, 'faint yw'r golled, a mi a dalaf hyny chwech gwaith; ac ni chaiff y gieir eich blino byth mwy. Nis gallaf fi fforddio colli cariad ac ewyllys da fy nghymmydogion, ac ymgwersylu a nhwy, oblegid gieir na dim arall."

"*Yr wyf wedi bod yn ffwl mawr*, meddai'r cymmydog. Nid yw'r colled ddim gwerth son am dano; ac y mae mwy o angen i mi wneud iawn i chwi, na chwi i mi—i mi i ofyn eich maddeuant chwi yn hytrach nag i chwi ofyn fy maddeuant i." K. F. B.

Y BEIBL.

Terfynodd y Parchedig W. M. Punshon, y pregethwr Methodistaidd (Wesleyaidd) enwog ei ddarlith yn Sutherland, ar Lenyddiaeth y Beibl trwy gwotasiwn oddiwrth ysgrifell Theodore Parker:—"Nid yw llenyddiaeth Groeg, yr hwn sydd yn myned i fyny fel arogl-darth o'r wlad hono o demlau a gweithredoedd gwronaidd, ddim wedi cael hanner dylanwad y llyfr hwn yr hwn a ddaeth oddiwrth genedl a ddirmygid yn gystal gan hen oesoedd ag oesoedd diweddar. Y mae'n cael ei ddarllen ar y Sabbath yn yr oll a'r deng mil pulpudau ein gwlad. Yn holl demlau gwledydd Cred y mae ei lais yn esgyn i fyny wythnos ar ol wythnos. Nid yw'r haul byth yn machlud ar ei du-dalenau tywynaidd. Y mae'n myned i fwthyn y dyn cyffredin yn gystal ag i balas y brenin. Y mae wedi ei weu i lenyddiaeth yr ysgolor, ac y mae yn lliwio ymddiddanion yr heolydd. Nis gall llong y marsiandwr hwylio'r môr hebddo; nis gall llong rhyfel fyned i'r ymdrech na byddo Beibl yno. Y mae'n myned i mewn i ystafelloedd dynion; yn ymgymmysg a holl ofidiau a siriol deb bywyd. Y mae'r forwyn ddyweddiedig yn gweddïo Duw mewn Ysgrythur ar gyfer ei dyledswyddau newyddion; y mae dynion yn cael eu priodi trwy Ysgrythur. Y mae'r Beibl yn gweini iddynt mewn afiechyd; pan byddo twymyn y byd hwn arnynt. Y mae'r pen tost yn cael pulw esmwythach pan byddo'r Beibl yn gorwedd odditanodd. Y mae'r morwr pan yn diange llong-ddrylliad yn crafangu hwn y cyntaf o'i drysorau, ac yn ei gadw yn sanctaidd i Dduw. Y mae'n myned gyda'r pedler yn ei becyn llawn; yn ei sirioli yn yr hwyr, pan fyddo yn eistedd i lawr yn llychlyd a lluddedig; ac yn y boreu yn eiriannu newydd-der ei wyneb-pryd. Y mae yn ein bendithio pan y genir ni; yn rhoddi enwau i hanner trigolion gwledydd Cred; y mae yn cydlawenhau â ni; yn cydymdeimlo â ni yn ein galar; yn cymmedroli ein tristwch i ddeilliadau mwy coeth. Y mae'r gwneud i fyny y rhan oreu o'n pregethau. Y mae'n cyfodi dyn uwchlaw ei hunan; y mae y goreu o'n gweddiau llafaredig yn ei dafodiaith addurnol ef trwy yr hon yr oedd ein tadau a'r patrieirch yn gweddio. Y mae'r dyn ofnus, ar ymddeffroi o freuddwyd y bywyd hwn, yn edrych trwy ddrych y Ysgrythur, ac y mae ei lygad yn dyfod yn ddisglaer; nid yw yn ofni sefyll wrtho ei hun yn unig, i droedio'r ffordd ddieithr a phellenig, i ymaflyd yn llaw angel marwolaeth, ac i roddi ffarwel i wraig, a babanod a chartref."

CWRDD NADOLIG LLWYNRHYDOWEN.

Cynhaliodd Ysgolion Sabbothol y Llwyn a'r Bwlch (yn cael eu cynorthwyo gan ryw ychydig o ysgolion Pantydefaid a Charmel) eu cyfarfod adrodd a chanu ar ddydd Nadolig yn y capel uchod, pan y llywyddid gan weinidog y lle. A ganlyn oedd trefn yr adrodd a'r canu:—

Ysgol y Llwyn.

Tôn 'Rhosyn Saron,' gan blant John Thomas, Felin Rhydowen. 'Awn i Fethlem,' gan Evan Charles, Pencwarrau. 'Boddlonrwydd' gan Margaret Davies, Newgate. 'Y poerwr tobacco,' gan Howell Williams, mab *Gwynionydd*. 'Y Nos,' gan James Thomas, Waun. 'Cân Gwraig y Pysgottwr' gan Anne Davies, Pantysgawen. 'Gwahoddiad i'r Winllan' gan Thomas Jones, Pentre. Tôn, 'Y wlad well' gan Jane L. Rees. 'Anerchiad ffraeth a phwrpasol' gan David Rees, dilledydd, Prengwyn. 'Gwylia ar dy droed,' gan Mary Jones, Moelhedog. 'Bwriadau da,' gan David Jones, Berthlas. 'Cwymp y dail' gan Elinor Jones, Blaencathal. 'Gwahoddiad i'r ysgol Sul' gan Mary Davies a Rachel Jones, Gelli. Tôn, 'Hen Feibl mawr fy mam' gan Margaret Jones, *new shop*, Llandyssul. 'Cynghor Ficer Prichard i'w fab,' gan John Charles, Pencwarrau. 'Ymweliad a Chymru,' gan Mary Davies, Pantysgawen. 'Breuddwyd gwr goludog,' gan Mary Davies, Gelli. 'Modryb. Nansi,' gan John Thomas, Gwarcoed. Tôn, 'Beth sydd hardd?' gan Jane L. Rees a'i chyfeillesau. 'Nos cyn Calan,' gan Thomas Thomas. 'Yr arferiad o ddyfod yn anweddaidd a thrwstan i dŷ Dduw,' gan Mary Davies, Scubor. 'Gof y Llan' gan Rachel Jones, Gelli. 'Cathl yr ardd' gan Anne Davies a Hannah Jones. 'Gadewch i blant bychain' gan John Thomas, Waun. Tôn, Carol Nadolig,' gan blant John Thomas, Felin. Anerchiad' (o *Seren Cymru*) hynod o ddifyr ac addeiladol gan Stephen Thomas, Blaencathol. 'Roedd 'deryn bach unwaith,' gan Thos. Evans, Pantygogle. 'Myfyrdod mewn mynwent' gan David Thomas, Penbont Sian. 'Nid da gormod o ddim' gan James Thomas, Waun. 'Myfyrdod wrth wrando aderyn,' gan Hannah Jones, Pantmoch. 'Cywydd y cybydd,' gan John Thomas, Gwarcoed. Tôn, 'Edifeirwch y meddwyn,' gan Rees Thomas, Domen, a John Davies, Pantgwyn. 'Gweddi foreuol plentyn,' gan David Jones, Berthlas. 'Twyll cyfoeth,' gan Mary Jones, Moelhedog. 'Bedd y baban' gan Evan Thomas, Felin. 'Yr eneth,' gan Evan Jones, Cwmgwarcoed. 'Y gauaf,' gan Mary Jones, Glanclettwr. 'Oes dyn ac angeu,' gan Wm. Davies, Cilrhiwe. Tôn, 'Pa beth yw oes?' gan John a Margaret Davies, Pantgwyn. 'Anerchiad' difrifol a chymhwysiadol iawn gan David Charles, Pencwarrau. 'Ewyllys yr Arglwydd a wneler,' gan Eliza Jones, Pantydefaid. 'Harddwch y greadigaeth,' gan Margaret Davies, Newgate. 'Diolch am yr ysgol Sabbothol,' gan Evan Thomas, Felin. Tôn, 'Y wenol,' gan Jane Rees, Glanrhyd. 'Y fam a'r plant,' gan Thomas Thomas, Llwyn. 'Tylotty yr undeb,' gan Hannah Jones, Scubor. Tôn, 'O gollwng fi' gan D. Lewis, Jane L. Rees, Anne a Mary Davies, Pantysgawen. 'Y ddau felinydd,' gan David Thomas, Penbont Sian. 'Cestyll Cymru' gan Thomas Evans, Pantygogle. 'Elen mewn gwlad estronol,' gan Mary Davies a Hannah Jones. 'Ehangder y greadigaeth,' gan Thos. Jones, *shop*. 'Gwagder y byd,' gan Mary Thomas, Blaencathol. 'Cynghor tad i'w fab a'r ateb,' gan Thomas Jones, *shop*, a Stephen Thomas, Blaencathol. Tôn, 'Cân Miriam,' gan John a Mary Davies, Pantgwyn. 'Gwraig y meddwyn' gan T. Jones, Cwmdyllest. 'Anerchiad mewn ffordd o adolygiad ar y flwyddyn,' galluog iawn gan Evan Thomas, Cilrhiwe. 'Troi dalen newydd,' gan John Thomas, Gwncoed. Tôn, 'Garibaldi' gan John a Mary Davies, Rees ac Elizabeth Thomas, Dousn, D. Rees a Thos. Lloyd, Pengwyn.

Ysgol y Bwlch.

Tôn, 'Eisteddfod Cymru,' y *solo* gan Edward Jones, Lantre. 'Gwagder y byd,' gan Anne Davies, Trafle. 'Addysg' gan Mary Jones, Felin Castellhywel. 'Y cardotyn amddifad,' gan Jane Thomas, Cwm. Tôn, 'Nid oes dim dagrau yn y

Nef,' y *solo* gan John Thomas, *factory*. 'Yr edifeiriol,' gan Mary Davies, Gwaralltyryn. 'Cân y gweithiwr' gan Edward Jones, Henbant. 'Y fam i'w maban yn ol claddu ei dad,' gan Jane Williams, Waun. 'Bore Sul Pasg,' gan Elinor Davies, Gwaralltyryn. 'Penillion i gariad cyffredinol,' gan Mary Williams, Waun. Tôn gan ddau blentyn bychan, Jacob ac Anne Thomas, *factory*. 'Reilffordd yr Efengyl' gan Hannah Jones, Felin. 'Yr awrlais yn galw,' gan Mary Thomas, *factory*, a Jane Thomas, Cwm. *Trio*, 'Ymson y Cristion,' gan David Jones, Maria George, ac Anne Davies. 'Y meddwyn a'i wraig,' gen John Jones a Hannah Jones, Pantcoch. 'Yr Ysgol Sul,' gan John Thomas, Rhydwen. 'Dadl parchu ac halogi'r Sabbath,' gan Gwen a Sarah Davies, Clettwr. 'Ymholiad plentyn,' gau John Jones, Cefngwallter-fach. Tôn, 'Hen Gymru hoff,' gan gôr y Bwlch, yn cael ei arwain gan John Thomas a John Jones. 'Marwnad y Parch. D. Llwyd, Brynllefrith,' gan Mary Jones, Meinigwynion-bach. 'Y ddau deulu,' gan Margaret Jones, Henbant. 'Cân ar gariad' gan Evan Thomas, Rhydysais. 'Diolchgarwch y bardd i Dduw,' gan Anne Davies, Trafle. Tôn, 'Clywch, deffrowch,' gan y côr. 'Dadl y ddau blentyn, y cyfoethog a'r tylawd,' gan Ann Davies, Trafle, a Mary Thomas, Nantgwyddau. 'Cân y festri,' gan John Jones, Meinigwynion-bach. 'Tynerwch mam,' gan Anne Williams, Waun. 'Y Mab Afradlon,' (o lyfr J. R.) gan E. Thomas, D. Jones, Thos. Davies, John Jones, shintwr, John Jones, Pantcoch, a James Davies, Clettwr.

Yr oedd yn gyfarfod maith ond blasus iawn. Gwnaeth y ddwy ysgol yn rhagorol. Gobeithio y ceir eto lawer cwrdd cyffelyb, ac yr ymestynir at wella o flwyddyn i flwyddyn. Yr oedd un achos o ddigalondid mawr i ysgol y Llwyn eleni trwy fod un o'r athrawon a fuasai yn benaf offeryn y llynedd i wneyd y cwrdd yn llwyddianus wedi ei analluogi gan afiechyd hir a thrwm i gymeryd unrhyw ran o'r gwaith arno. Am hyn yr oedd mawr ofid a thristwch, ynghyd a dymuniad dwys am adferiad buan yr athraw ffyddlawn a hunan-ymwadol hwn. Trwy drugaredd mi adawyd i'r gwaith da i sefyll; ac ni a hyderwn fod y cyfryw a ymdrechasant eleni mor dda gydag hyfforddi yr adroddwyr a'r cantorion, eisioes wedi derbyn cyflawn dâl yn eu myvesau eu hunain.

Ar ol ymollwng o'r cwrdd trwy weddi aeth yr athrawon, yr adroddwyr a'r cantorion, a phawb erailI a berthynent i'r ddwy ysgol i ystafell gyfagos, lle y darfu iddynt oll, er mawr foddhad, gyfranogi o'r tê a'r bara brith a ddarparesid ar eu cyfer, trwy ragofal a haelioni ychydig o wragedd da cynulleidfa'r Llwyn. Eisteddodd dros 200 o blant a chyfeillion yr ysgolion i de.

Da genym allu dweyd fod y llyfrgell gynulleidfaol a sefydlwyd yr haf diweddaf yn Llwynrhydowen, yn ateb ei dyben yn rhagorol. Mae llawer o ddarllen yn mhlith hen ac ieuainc. Nid yw y llyfrgell eto ond bychan, ond ni a hyderwn allu ychwanegu ati fel y bo amgylchiadau yn gofyn. W. Thomas.

CYFARFOD YSGOLION SABOTHOL CAPELYGROES AC ALLTYBLACA,

Dydd Llun, y 26ain o Ragfyr, yng Nghapelygroes.

Dechreuwyd y cyfarfod trwy adrodd y 15fed benod o Luc gan Mary David, Cwrtnewydd. Canwyd y 199 Salm o'r ail gyfrol, a gweddiodd y Parch. Thos. Thomas, gweinidog y lle. Canwyd y 104 Salm o'r ail gyfrol ar yr Hen Ganfed gan y gynulleiddfa yn gyffredinol. Adroddwyd y 107 o Salmau Iolo gan Elisabeth Jones, Glanyrafon, geneth pum' mlwydd oed. Brenhiniaeth Crist, gan Evan Jones, Nantyffin. Gwerthfawrogrwydd amser. gan E. Davis, Hen-dy'r Neuadd. Mis Mai, gan Wm. Lloyd, Ty'nllyn. 4ydd benod o'r ail Corinthiaid gan Mary Jenkins, Pantmelyn a Mary Evans, Nantyffin Englynion i'r Gauaf, gan Elinor Davies, Bailicadarn. Harddwch y Greadigaeth, gan E Davies, Hen-dy'r Neuadd. Beibl mawr fy mam, gan William Lloyd, Ty'nllyn. Dedwyddwch Teuluaidd, gan Ann Jones, Felinban. Breiolder bywyd a chadernid y cyfiawn, gan Mary Jenkins, Pantmelyn. Tôn gan Gôr Alltyblacca Trachwant, gan Jane Evans, Pantyffynon. Ar Dduw, gan Jane Howels, Esgerenylys. Galar y Bardd ar ol ei Fam, gan Martha Howells, Esgerenylis. Emyn mewn afiechyd, gan John Evans, Nantyffin. Profiad y Bardd, gan Sarah Evans, Nantyffin. Dydd genedigaeth, gan Martha Davies, Talgrwnmawr. Golwg ar gyflwr dyn ymhob rhan o'i oes,

gan Samuel Williams a Rachel ei chwaer, dau blentyn i Evan Williams, Weingron. Cwyn y Weddw, y 131 Salm o'r ail gyfrol, a'r 104 Salm o'r gyfrol gyntaf, gan Mary Davies, Ffosyffald yn 79 mlwydd oed. Cywydd i'r diog a'r diwyd, gan Evan Jenkins, Blaenwaunganol. Y Llew a'r Echo, gan Evan Morgans, Waun-nang. Y ddadl y llygad a'r clust, gan J. Jones ac Ann Jones, Hendryd, a Griffith Evans, Pantmelyn. Dadl—Pu'n a'i priodi ai peidio oedd oreu, gan John Williams a David Jones, Alltgoch. Englyn difyfyr gan John Jones, Hendryd. Tôn gan David Jones, Alltgoch.

YSGOL ALLTYBLACA,

Yn cael ei llywyddu gan y Parch. John Davies, gweinidog y lle.

Tôn gan y Côr ar "Chwi'r bydoedd sydd uwch ben." Pren gwybodaeth gan Esther Jones, Cefnrhyddlanfach. Yr Ysgol Sul, gan Elisabeth Jones. Gweddi'r Arglwydd yn Saesneg gan Ann Evans, Maesymeillion, geneth ieuangc iawn. Crist yn curo wrth y drws, gan Esther Jones, Cefnrhyddlanfach. I'r dyn diog, gan yr un. Fy chwaer sydd yn y bedd, gan yr un. Y Llew a'r Echo, gan Mary Jones, Blaencriwsen. Ymddiddan rhwng Ifan a Ieuan, gan Benjamen ac Evan Thomas. Gadewch i blant ddyfod ataf fi, gan Elisabeth Jones. Gadewch i'r egin dyfu, gan Sarah Evans, merch ieuangc iawn. Galarnad am y marw, gan Sarah Miles, Drefach. Darfodedigaeth, gan Catherine Prrry. Boddlonrwydd, gan Sarah Miles, Drefach. Ymddiddan y plant â'u mam, gan Daniel, Esther, ac Elisabeth Jones. Ar Farw, gan Elinor Davies. Meddyliau am y Nefoedd, gan Mary Davies. Cywydd y daran, gan John Evans. Ansicrwydd Bywyd, gan Mary Jones, Blaencrwys.

Wrth ddiweddu, cawsom gyngor synwyrgall gan ein teilwng weinidog er ein hanog i ymdrechu addysgu y rhai ieuainge sydd dan ein gofal i ddarllen yr Ysgrythyrau ynghyda gosod yr egwyddorion cysylltiedig â hwynt mewn gweithrediad yn eu ymarweddiadau. Sylwodd ymhellach nad oedd yn amhosibl na fyddai i rai o'r ieuengetyd sydd dan ein gofal yn bresenol i lanw cylchoedd uchel mewn cymdeithas yn yr amser dyfodol.

Canwyd dôn gan Evan, David, Margaret, a Mary Evans, Abercerdinen, a diweddwyd trwy weddi gan y Parch. David Evans, Caeronen. D. DANIEL.

Hanesion Gartrefol a Thramor.

Y SENEDD.—Agorir yr eistedd-dymhor am 1865. ar y 7fed o Chwefror. Nid yw yn debygol y bydd y Frenhines n bresennol ar yr agoriad: dywedir y ydd i Dywysog Cymru i'w chynrychioli r yr achlysur. Bydd hyny, os digwydd elly, yn ei le. Ond nid yw yn beth o wys mawr. Yn ol yr adroddiad am llid y wlad ymddengys fod pob peth ffafriol; ac nad yw yn annhebygol y ydd Mr. Gladstone yn alluog i ostwng ethi y flwyddyn nesaf tua dwy fil o iaf. Ond y mae y wlad a'r llywodraeth drwg-dybio amcanion yr Undebwyr nericanaidd. Y mae yn dost i ddweyd amryw arwyddion yn dangos fod n berygl i ryfel dori allan rhyngddynt, ewn perthynas â Chanada yn benaf. mae ein gweinyddiaeth hyd yn hyn di ceisio bod yn ochelgar; gobeithiwn gallant lwyddo i ochelyd rhyfel âg erica. Ond nid oes ammheuaeth na d y darpariadau tuag at amddiffyn nada i ychwanegu cryn lawer tuag at t y llywodraeth am y flwyddyn ddyfodol. Ac nid oes help i hyny oddieithr i ni roddi Canada i fynu yn gyfangwbl i'r Undebwyr Americanaidd. Beth bynag y mae yn amlwg nad oes teimlad da rhwng y ddwy wlad ar y matter.

FFRAINGC.—Y mae llythyr cylchynol y Pab wedi peri cryn gynhwrf yn Ffraingc; ond ar y cyfan nid yn ffafriol i'r Babaeth. Camsynied ydoedd i Antonelli a Pio Nono i dybied y gallent wneud gwas bach o Louis Napoleon. Digon tebyg y deuant i wybod a theimlo hyny maes o law. Yr ydys wedi ei benderfynu fod cyhoeddi y llythyr cylchynol Pabaidd yn Ffraingc yn groes i sefydliad gyfansoddiadol y wladwriaeth. Dyna fel y mae'n debyg y mae'r peth yn sefyll. Ceir gweled ar fyr beth fydd y pendraw.

PRWSSIA.—Y mae'r Senedd Brwssiaid yn Berlin wedi methu cael cyttundeb â'r Brenin. Yr oeddid i raddau yn rhagweled y peth cyn hyny. Ond y mae y brenin a'i lywodraeth yn ddigon tebyg o gario pethau yn ol eu hewyllys a'u mympwy

eu hunain. O'r byn lleiaf bydd y rhyd-frydwyr yn y Tŷ isaf yn gorfod rhoddi i fynu eu hawdurdod, ac ymostwng i'r llywodraeth.

AMERICA.—Ni ddarfu aflwyddiant yr ymosodiad cyntaf a wnaed ar Amddiffynfa Fisher beri i'r Undebwyr roddi Wilmington i fynu. Diswyddwyd Butler am beidio cymmeryd yr amddiffynfa. Tra yr oedd ef yn rhoddi rhesymau i ddangos yr amhosiblrwydd o gymmeryd y lle dan yr amgylchiadau yr oedd y llywodraeth Undebol yn y cyfamser wedi darparu ymosodiad arall i'r un perwyl; a daeth y newydd fod yr amddiffynfa *wedi cael ei chymmeryd.* Derbyniwyd hysbysiad swyddol gyda'r *Asia*, fod yr Undebwyr wedi cymmeryd amddiffynfa Fisher, trwy ruthr ar y 15fed o Ionawr. Blaenorwyd y rhuthr gan dânbeleniad trwm gan y llynges, o dan lywyddiaeth Admiral Porter. Meddiennir yr holl weithydd i'r dehau i Amddiffynfa Fisher gan yr Undebwyr. Cymmerasant yr holl warchodlu, yn cynnwys 2,500 o wyr, yn nghyd â 75 o fagnelau. Colled yr Undebwyr oedd 900 o wyr. Wedi cymmeryd Amddiffynfa Fisher, aeth gwnfadau yr Undebwyr i fyny i'r afon *Cape Fear.* Y mae General Sherman wedi meddiannu Pocotaligo ynghyd â'i holl weithydd, ac yn bygwth Branchville. Oddiwrth yr ystadegau swyddol sydd newydd eu cyhoeddi, ymddengys fod yr Undebwyr wedi cymmeryd 354 o fagnelau, a 28,000 o garcharorion oddiar y Gwrthryfelwyr yn ystod y tri mis diweddaf mewn gwahanol ranau o faes y rhyfel, ac na chollasant wrth eu cymmeryd ond 2,000 o wŷr: tra na chymmerodd y Gwrthryfelwyr ond 6 o fagnelau oddiar Gillem yn yn Tennessee. Nifer y Cadfridogion Gwrthryfelgar a laddwyd neu a glwyfwyd yn yr un amser oedd 25, tra na chafodd ond un Cadfridog Undebol ei ladd, a phedwar eu clwyfo. Gwnaed dinystr aruthrol hefyd ar ffyrdd haiarn y De. Ni ddarfu i General Sherman, yn ystod ei daith trwy Georgia, ddryllio dim llai na 200 o filldiroedd o ffyrdd haiarn, ac y mae yn amlwg ei fod wedi eu dryllio yn effeithiol oddiwrth adroddiad swyddol General Beauregard, yn yr hwn y dywed nad oedd efe wedi derbyn un gair oddiwrth Hood rhwng y 3ydd o Ragfyr a'r 30ain o Ragfyr.

Priodwyd—

Rhag. 29, 1864, yng Nghapel Llwynrhydowen, gerbron Mr. Morgan, cofrestrydd, gan y Parch. Wm. Thomas, M.A., Mr. David Jones, crydd, Llanfairorllwyn, a Miss Mary Lloyd, o Ddyffryn Clettwr.

Bu Farw—

Rhag. 28, yn 67 oed, Edward Jones, Henbant, ger Talgareg, sir Aberteifi, ar ol cystudd maith a phoenus gan y fogfa, yr hwn a ddyoddefodd gydag amynedd ac ymostyngiad i ewyllys ei Dad nefol. Buasai'r trancedig yn ddiwyd a threfnus iawn gyda'i amgylchiadau bydol, yn sobr a dichlynaidd ei rodiad, a rhydd o bob rhodres wag. Dymunasai gael ei gladdu yn yr un dull dirodres ag y buodd byw, heb un addurn ar ei arch, heb un parotoad ar ei fedd gwahanol i eiddo'r tlotaf yn y wlad. Bu yn aelod diargyhoedd o'r gynulleidfa yn nghapel y Fadfa, am flynyddau lawer. Claddwyd ef ym mynwent Pantydefaid, ac yn y capel ar yr achlysur pregethodd yr ysgrifenydd oddiar Psalm cxix. 19, "Dyeithr ydwyf fi ar y ddaear." W. THOMAS.

Rhagfyr 29, yn 87 oed, Elizabeth Jones, hyd yn ddiweddar o Goedlanaufach, ger Llwynrhydowen. Cawsai ddyddiau meithion, a mwynhaodd iechyd a nerth y tuhwnt i'r cyffredin hyd agos ddiwedd ei hoes. Y hi oedd yr aelod henaf, yn debyg, o gynulleidfa'r Llwyn, a buasai yn yr arferiad o addoli yn gyson yno cyn geni y rhan amlaf o'r dd bresenol yn y lle. Pregethodd y Parch. D Evans, B.A., Caeronen, yn gymhwysiado iawn yn ei hangladd oddiar Esai xl. 3—8 yng nghapel Llwynrhydowen. W. T.

Ionawr 1, 1865, yn 77 oed, yn dra d rybudd, Thomas Jones, saer, Aberglasney wrth Bont Sian. Ar y Sadwrn yr oed gyda'i waith yn llifio, ond tua deg o'r gloc fore'r Sabbath ymadawodd a'r fuchedd hon Gweithiodd yn galed gyda'i alwedigaeth trwy ei oes, ac adwaenid ef fel dyn diniwed tangnefeddus, a di-ddichell. Daeth lliaw mawr o'i gymydogion ynghyd i'w hebrwn i orphwys wrth ochr cymhares ei fywyd yn mynwent Pantydefaid, pan y pregethodd y ysgrifenydd oddiar Matth. xxvi. 41, "Gwyl iwch a gweddiweh, fel nad eloch i brofedig aeth." W. T.

Rhagfyr 28, 1864, yn 61 mlwydd oed, y nhŷ ei chwaer, Sarah Enoch, yn Mhendaren, ger Merthyr, Mr. Evan Bowen. Y oedd wedi d'od i dalu ymweliad â'i berth nasau yn y cylchoedd hyn tua chwe- ne

saith mis yn ol; gan feddwl y buasai hyn yn adnewyddu ei iechyd. Nid felly y bu; ond yn waeth waeth aeth ef o hyd nes gorphenodd ei yrfa ddaearol. Yr oedd E. Bowen yn enedigol o blwyf Llandyssil, Ceredigion. Adwaenid ef yn gyffredin gartref wrth yr enw Evan Bowen, Lloyd Jack Arms, Ystrad. Yr oedd yn ddyn a gerid gan bawb a'i adwaenai: yr oedd yn un o'r dynion mwyaf addfwyn a serchog a adnabu yr ysgrifenydd erioed. Yr oedd yn Undodwr selog: ac yn un ag oedd wedi darllen ac ystyried llawer yn ei ddydd, fel ag yr oedd yn barod i roddi attcb am y gobaith oedd ynddo. Bu yn aelod gyda'r Undodiaid am 37 mlynedd yn Ystrad a Rhydygwin. Y dydd Gwener canlynol i'w farwolaeth claddwyd ef yn mynwent yr Hendy-cwrdd, Cefncoedycymmer; a phregethodd Mr. W. Hughes ar yr achlysur oddiwrth 2 Tim. iv. 7. D. J. Jones.

Ionawr 16, yn 50 mlwydd oed, ar ol hir a thrwm gystudd (yr hyn a ddioddefodd yn dawel ae amyneddgar) Mr. Thomas Thomas o Marcross. Yr oedd yr ymadawedig yn ddyn treiddgar ei feddwl a chryf ei ddeall. Rhoddai gynghorion a chyfarwyddiadau newn perthynas i fatterion plwyfol ac eraill ag oedd yn werth i ddal arnynt. Carai amddiffyn y tlawd, a chynhorthwyo'r gwan. Bu yn aelod ffyddlon gyda'r Bedyddwyr Undodaidd yn y Wig am 19 mlynedd, ac 16 o hyny yn ddiacon, yr hon swydd a gyflawnodd yn ddoeth a diwyd. Gadawodd weddw a phump o blant i alaru ar ei ol. Teimla yr eglwys hefyd hiraeth a chollcd, oherwydd nid yn hawdd y llenwir ei le. Ar ddydd ei angladd, y Mercher canlynol, daeth llawer o'i berthynasau o bell ac agos ynghyd, a lliaws o'r gymmydogaeth i'w hebrwng i'w fedd yn mynwent tŷcwrdd y Wig. Yn y tŷ cyn cychwyn, darllenodd a gweddiodd Mr. Titus Lloyd, ien.; ac yn y tŷ cwrdd gweinyddodd a phregethodd gweinidog y lle (gyda theimlad toddedig ac hiraethlon ar ol cyfaill mor anwyl a hoff) oddiwrth 1 Pedr 3. 4. Bydded i'w berthynasau, a phawb o honom fel ein gilydd, i ddweyd o'r galon, "yr Arglwydd yw Efe, a gwnaed a fyddo da yn ei olwg;" a diolch yn wastadol am addewid nerthol yr Iesu, "Byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd;" fel y canodd yr hen Fardd Iolo:—

"Er dodi 'n brawd ym mhwll y bedd,
Adgyfyd etto 'n fyw,
I fyd y saint, i wynfyd hedd,
I ryddyd meibion Duw."

T. Lloyd.

Barddoniaeth.

GWIR FEDDWL Y PRYDYDD.

Un Hollalluog enwog yw,
Un Tad trag'wyddol dynol-ryw;
Pa fodd gall llygad meddwl dyn
Dreiddio i ganfod *mwy nag un?*

Un medd pob iaith a wnaeth y byd,
Un Tad trugarog trwyddo i gyd;
'Rwy'n methu canfod yn fy myw
Ddim mwy nag Un anfeidrol Dduw.

Hawdd 'nabod Un, bob mynyd awr,
Yn ngwaith y greadigaeth fawr;
Y sêr yn hardd olygfa sydd,
Yn gwirio'n deg cyn gwawrio dydd.

A dyn yw Crist, nid mwy na dyn,
Heb waelder â'i holl ffyrdd y'nglŷn;
Dyn wedi 'i ddewis gan ei Dduw,
Er addysg rad i ddynol-ryw.

Mae gwneyd nol addysg hwn o hyd
Yn ddigon, ddynion beilchion byd;
Mae'n addysg bywyd, hyfryd yw,
A goleu'n deg i gael Un Duw.

Cawn 'nol ei wirddysg addysg hedd,
Iawn droi i fyd tudraw i fedd;
Waith nid y bedd yw diwedd dyn,
Ond cysgod hawdd i gysgu hun.

Am hyny moled pob rhyw iaith
Ein Llywydd mawr galluog maith;
Un rhoddwr pob daioni'n rhad,
Un Duw trag'wyddol duwiol Dad.

Llanwnen. Daniel Gloff.

LLINELLAU ANNERCHIADOL

i'r Gobeithlu, ("Band of Hope"), Hen-dŷcwrdd, Aberdar, a gyfansoddwyd erbyn, ac a adroddwyd ger gwydd, Cylchwyl Lenyddol eu ysgol Sul, Tach. 28ain, 1864.

I'r "Gobeithlu" boed llwyddiant,
I fyned yn y bla'n,
Trwy gadarnhau eu hunain,
Yn rhwymau trefn a chân;
Dan ofal cyfarwyddwyr
Arweinwyr* cymwys mad,
Nes do'd yn wych gantorion,
A'r goraf fewn ein gwlad.

Mwy, fwy y byddo'r ymdrech,
I dywys y rhai bach,
Yn ffyrdd dedwyddwch einio's,
Rhydd iddynt fuchedd iach;

Heb droi i'r dê, na'r aswy
Oddiar y llwybr cûl,
Sy'n arwain i'r goleuni,
A dardd o'r Ysgol Sul.

Cynhyrfer ynom beunydd
Aiddgarwch dros lesad
Yr ieuange mewn gwybodaeth,
Bair iddynt wir fwynhad;
A roddi hyfforddiadau
Esamplau pur o'u blaen,
I beidio rhoi addoliad
I ddelw o bren neu faen.

Hardd flodau'r oes yw'r ieuange
Sy'n gofyn gofal mawr,
Tynerwch a meithrindod,
O'u hamgylch ar bob awr;
A dangos i'nt y llwybrau,
Sy'n harddu buchedd dyn,
Rhag syrthio i drueni,
A goddef gwae a gwŷn.

Amrywiol y'nt y maglau
Sydd yn y byd yn bod,
Er rhwydo'r meddwl ifange,
Er dwyn ei barch a'i glod;
Mae modd i groesi'r gwersyll,
Rhag swn hudoliaeth twyll,
A'r canlyniadau'n fendith,
Yng nghoiau'r gwir a phwyll,

Pan byddo'r côf yn fywiog
A'r meddwl yn ei rym,
A'r iechyd heb wanychu
A'r llygad yn dra llym;
Pryd hyn mae planu hadau
A dyf fel aeron pêr,
A'i ffrwyth yn hardd rhyfeddol,
Yn ddisglaer fal y sêr.

Rhy hwyr yn nyddiau henaint,
Yw ceisio dysgu fawr,
O'r ffyrdd, bair gysur drwyddynt,
Pan ddel yr olaf awr;
Rhaid 'mofyn am oleuni,
Yn amser borau oes,
Er ffurfio pur gymeriad,
A ddeil dan bwys y groes.

Mae'r maes yn ddigon ëang,
A'r alwad ar ein hol,
"Ymolchwch, dowch i'r winllan,
Gadewch eich llwybrau ffol;
Nid oedi hyd y foru,
Ond heddyw ydyw'r dydd,
I geisio'r *Rhan* yn fewnol,
Saif yn y farn a fydd."

O, i'engctyd hardd ymunwch
Dan faner Brenin nef,
Mae'r goron yn eich aros,
Os gwnewch ei archiad ef;
Mae'r iau yn esmwyth ddigon
Ag hawdd eu dwyn bob pryd,
Dwg i chwi wir gymeriad,
A mwyniant o'r ddau fyd.

Aberdar. EIDDIL CYNON.

YR HEN WR A'R YSGOL SUL.

HEN wr a bwysai ar ei ffon,
A rhychiau dyfnion ar ei rudd,
Ar ganu'n iach i'r ddaear hon,
Er hyny pell o fod yn brudd;
Am lawer blwydd buasai ddall
Heb weled plentyn hoff nac ŵyr,
Na'r naill beth anwyl mwy na'r llall,
Ond nos a dydd yn unig llwyr.

Ac eto llygaid ffydd oe'nt glir,
A gwelent gyrrau y wlad well;
Cyfarwydd fuasent amser hir
A bryniau'r anfarwoldeb pell.
O'i gornel unig Sul na gwyl
Nid allai symud, druan gwael;
Ond eto *yno* nefol hwyl
Yn fynych mynych oedd yn gael.

Can's cofiai o'r Beibl aml i air
A glywsai ganwaith yn y Llan;
Rhyw felus, orfoleddus air
A ddodai nerth mewn calon wan.
I'r Llan gynt el'sai'n gyson iawn
A gwraig ei ie'nctyd gydag ef,
A'i hygar blant yn gwmni llawn;
A dyrchent yn y gân eu llef.

Yn aml fe wed y patriarch cu
Mai penaf peth yw'r cof i'r hen;
Os daw i'n cwrdd rai dyddiau du
Fod ar rai eraill ddidranc wên.
"Mor felus genyf gofio o hyd
Am bob rhinweddol fuddiol foes!
A phe y cawn ail-ddechreu byd
I Dduw yn gyfan rho'wn fy oes.

Ond pan yn ieuanc oeddwn i
Am ysgol Sul un sôn nid oedd,
O fewn y wlad fach oedd y rhi'
A allent ddarllen gair ar g'oedd.
Y byd cyflymu rhagddo mae,
Ac arfaeth nef yn do'd i ben,
Ein rhagorfreintiau'n amlhau,
Ac uchel saif ein Cymru wèn.

Fy mhlant a'm wyrion, gwyn eich byd,
Os ceir chwi'n ffyddlawn weision nef,
Yn darllen gair ein Duw bob pryd
A threfnu'ch bywyd wrtho ef.
Rhowch glust i un ar fin y dwr;—
Ymgedwch hyd y llwybr cul,
Ac ymfyddinwch fel un gwr
I weithio 'mhlaid yr Ysgol Sul."

M.

PENYBONT: ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.